Bodleian Libraries
UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries
and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks

This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.

# BLODAU GWENT

SEF CASGLIAD

O Waith Anghyhoeddedig

Y DIWEDDAR

## Ossian Gwent.

CASNEWYDD-AR-WYSG:
Cyhoeddedig gan J. E. Southall, 149 Dock Street.

PRIS SWLLT.

28915 f. 137

10/-

C W Dymond

from John E Southall

XI. 26. 09

# BLODAU GWENT

SEF

CASGLIAD O WAITH ANGHYHOEDDEDIG

Y DIWEDDAR

## OSSIAN GWENT.

"Tri anhebgorion Bardd :—
Llygad i weled anian,
Calon i gydymdeimlo ag anian,
A glewder a faidd gydfyned ag anian."

CASNEWYDD-AR-WYSG:
J. E. SOUTHALL, CYHOEDDWR, 149 DOCK STREET.

1898

Bt. from R.G. Boyle

BODLEIAN
P
12 OCT 1966
LIBRARY

# RHAGYMADRODD.

Nid oes neb o feirdd Cymru wedi canu yn felusach am Natur yn ei hamrywiol weddau nag Ossian Gwent. Y mae wedi profi ei hun yn blentyn Natur ym mhob darn o'i farddoniaeth.

Dyn tawel, diymhongar, ydoedd; nid un i wthio ei hun ymlaen, a gwneud ei ffordd yn y byd trwy drais ydoedd Ossian. Carwr unigedd a lleoedd neillduedig ydoedd, lle y medrai ddal cymundeb ag Awdwr Anian mewn tawelwch a distawrwydd.

Nodweddir ei farddoniaeth gan gydymdeimlad â'r tlawd a'r gorthrymedig, ac yn hyn apelia at bawb o gyffelyb ysbryd.

Ni chafodd fanteision addysg golegawl, eithr bu yn "fab llafur," yn ystod ei holl oes, ond er hyn ni chafodd llenyddiaeth mewn un ysgolhaig well cymwynaswr; defnyddiodd yr ysgrifbin gyda medr, choethder, a phob lledneisrwydd—nid heb wallau mae'n wir, ond gyda deheurwydd rhyfeddol yn y gwahanol fesurau y gwnaeth ddefnydd o honynt.

Rhoddwyd y manylion canlynol am fywyd Ossian gan ei frawd yn nghyfraith, T. W. Davies, Lower High Street, Rhymni:—

"Ganwyd John Davies *(Ossian Gwent)*, yn nhref Aberteifi, Ionawr 30ain, 1839. Enwau ei rieni oedd Evan ac Anna Davies. Hanai o deulu parchus a thalentog. Yr oedd ei dad yn fardd gwych, ond ychydig ddefnydd wnaeth o'i awen.

"Symudodd ei rieni i Rymni pan oedd efe yn lled ieuanc, a phrentisiwyd ef yn saer coed dan y cwmni. Dysgodd y grefft honno yn rhagorol, ac yna aeth yn *pattern maker*, yr hon grefft hefyd a feistrolodd, ac a barhaoedd i weithio ynddi hyd ddiwedd ei oes. Cafodd ei freintio ag addysg elfenol foreuol dda, a gwnaeth ddefnydd helaeth o honi, fel y tyfodd yn ysgolhaig lled wych yn y ddwy iaith. Cafodd ei freintio yn helaeth ag addysg yr aelwyd, yr Ysgol Sul, a'r pulpud; a gwnaeth y goreu o'r cwbl."

Bu farw ar foreu Ebrill 24ain, 1892, yn 53 oed.

Yr wyf yn ddyledus i'm cyfaill L. D. Jones, Garth, Bangor, am adolygu y rhan fwyaf o'r prawf-leni, ac yr wyf wedi dilyn ei gywiriadau a'i sillebiaeth ef ym mron yn ddieithriad.

Cefais gymhorth hefyd ym mharotoad Cymraeg y rhagymadrodd uchod gan fy nghyfaill A. Morris, Casnewydd-ar-Wysg.

J. E. S.

*7 mis, 1898.*

# CYNWYSIAD.


| | |
|---|---|
| Anghyfnewidioldeb Natur ... ... ... | 1 |
| Y Flwyddyn Newydd ... ... ... ... | 2 |
| 'R wy'n caru y Gauaf ... ... ... | 3 |
| Mae Ionawr wedi esgyn ... ... ... .. | 4 |
| Chwefror ... ... ... ... ... ... | 5 |
| Mawrth ... ... ... ... ... ... ... | 5 |
| Mawrth (eto) ... .. ... ... ... ... | 5 |
| Meddyliais fod y Gauaf ... ... ... ... | 6 |
| Y Gwanwyn eto ddaw ... ... ... ... | 8 |
| Ebrill ... ... ... .. ... ... .. | 9 |
| Ebrill (eto) ... . ... ... ... ... | 10 |
| Mai ... ... ... ... ... ... ... | 12 |
| Mai (eto) ... ... ... ... ... ... ... | 14 |
| Mehefin ... ... ... ... ... ... ... | 16 |
| Gorphenaf ... ... . ... ... ... | 17 |
| Awst ... ... ... .. ... ... ... | 18 |
| Medi ... ... ... ... ... ... ... | 20 |
| Lleuad y Cynhauaf ... ... ... ... .. | 21 |
| Swper y Cynhauaf ... .. ... ... ... | 23 |
| Marwolaeth yr Haf ... ... .. ... | 25 |
| Hydref ... ... ... ... ... ... ... | 26 |
| Hydref (eto) ... ... ... .. ... .. | 28 |
| Arwyddion o Ddyfodiad Gauaf .. ... ... | 30 |
| Tachwedd ... ... ... ... .. ... | 32 |
| Rhagfyr ... ... ... ... ... .. .. | 33 |
| Cyfarchiad i'r Flwyddyn yn Rhagfyr ... | 35 |
| Ymadawiad y Flwyddyn ... .. ... ... | 37 |

Gauaf ... ... ... ... ... ... ... 38
Gauaf (eto) ... ... ... ... .. ... 39
Telyneg i'r Friallen ... ... ... ... 41
Y Frongoch ... ... ... ... ... ... 45
Y Betrisen ... ... ... ... ... ... 46
Y Mwyalch a'r Fwyalchen ... .. ... 49
Y Bronfrith, y Mwyalch, a'r Aderyn Du ... 50
I'r Awel ... ... ... ... ... ... .. 52
I'r Gwlithyn ... .. ... ... ... ... 54
Y Wenynen .. ... ... ... ... ... 56
Llygad y Dydd ... ... ... ... ... 57
Ffrwd y Pistyll ... ... ... ... ... 58
Bywyd ... ... ... ... ... ... ... 60
Fy Llynges o Blu ... ... ... ... ... 61
Yr Elyrch ... ... ... ... ... ... 63
Mae lle ei bod yn waeth... ... ... ... 67
I'r Goedwig yn foreu aeth Edith ... ... 69
Yn Llaw ei Dad 'r oedd Alun bach ... ... 70
Y Bwthyn Tlawd ... ... ... ... ... 72
Swn y Gafod ... ... ... ... ... ... 75
Pam? O! Pam yr wyf yn Brudd... ... ... 77
Bywyd (eto) ... ... ... ... ... ... 78
Y Ddeilen Grin ... ... ... ... ... 87
Cysgodau... ... ... ... ... ... ... 90
Dyma 'r Fan a Garaf Fi ... ... ... ... 105
Cydymdeimlad ... ... ... ... ... ... 107
Y Ddyfr-gloch... ... ... ... ... ... 108
Cerdd y Dafnau ... ... ... ... ... 116
Cerdd y Wawr... ... ... ... ... ... 118
Cerdd yr Hwyr ... ... ... .. 118
The Cuckoo ... ... ... ... ... ... 119
The Primrose ... ... ... ... ... ... 120

# CANIADAU.

## ANGHYFNEWIDIOLDEB NATUR.

Cyn agor fry o'r borau
  Ei amrant euraidd lân,
'R oedd natur ar ei gliniau
Yng ngoleu ei hallorau,
  A'i chysegredig dân.

Yn llithro drwy ei chalon,
  Mae ffrwd o hafaidd ddawn;
Mor dyner ac mor dirion,
Nes yw ei llygaid gloewon
  O fwyniant byw yn llawn.

O'r Nef daeth gwrid ei gruddiau,
  O'r Nef y caed ei rhod;
Ei harian gain sandalau,
A cheinion heirdd ei bronnau—
  Y Nef a gaiff ei chlod!

Ei chyfoeth gaed o'i thlodi,
  Ei nerth o'i gwendid ddaeth;
Rhaid oedd i gûr ei nodi,
Cyn byth y medrai 'i godi,
  I rawd y Llaw a'i gwnaeth.

Nid arwynebol harddwch,
  Na thegwch lliw a llun,
O natur! yw'th brydferthwch;
O'th fewn mae'th brif hawddgarwch,
  Hwn erys fyth yr un.

Dihatred gwynt y gauaf
   Dy hafaidd wisg, os myn,
A choron dy gynhauaf;
A gwisged di â'i oeraf
   Fantellog eira gwyn.

Aed ffwrdd â'th berlog wyrdd-der,
   A glesni'th nefoedd glyd;
O'th fewn mae gloew ddyfnder
O fywyd, hedd, a pleser,
   A'th geidw'n wyrdd o hyd.

---

## Y FLWYDDYN NEWYDD.

Y gloch uwchben gyhoedda
   Un flwyddyn eto'n rhydd,
A'r flwyddyn newydd chwardda
   Pan ddaw i lawr y dydd;
Mil myrddiwn o galonnau
   Wna'i chanlyn ffordd yr ä,
Gan sibrwd taer weddïau,
A'r puraf ddymuniadau,
   Ar iddi fod yn dda.

O boed ei gwedd yn serchog,
   Boed llwyddiant ar ei rhawd,—
Hedd fyddo i'r cyfoethog,
   A llawnder i'r tylawd;
Nid oes ond gwenau'r Nefoedd
   A bendith Duw a'i gwna,
I fryniau a mynyddoedd,
I ddolydd a dyffrynoedd,
   Yn flwyddyn ddedwydd, dda.

I Fanon weddw, gorsedd
  Wen Prydain, bydd yn nwyf;
Yn faeth i'r hon raid eistedd
  Ar rewllyd fainc y plwyf;
Bydd olew i dawelu
  Pob terfysg, dig, a phla;
Os byw a gawn i'th gladdu
Y gallwn ysgrifennu,—
  Bu farw blwyddyn dda.

---

## 'R WY'N CARU Y GAUAF.

'R wy'n hoffi! 'r wy'n caru y gauaf,
  A phrudd-der a dwysder ei wedd!
Yn nhrwst ei gorwyntoedd gerwinaf,
  Mae heddwch, dedwyddwch, a gwledd;
Edrychaf i'w lygaid heb ddychryn,
  A gwenaf yng nghanol ei ru;
I'm llonni bob amser mae gwanwyn
  O dan ei wisg oerllyd i mi.

'R wy'n caru, 'r wy'n caru y gauaf!
  Er dued er garwed ei lun;
    Mae curiad ei galon
    Yn bur a chariadlon,
  I'r nefoedd, i'r ddaear, a dyn;
    O! pwy na faddeua
    I arwr yr eira,
    Am gydio 'n garedig
    Yn anian flinedig,
  A'i gwasgu am ennyd i'w gôl,
    A'i fynwes wywedig?
    Hûn felus gaiff yno,
    Caiff yno orffwyso
    I fwrw ei ludded,

Ond aros ychydig
Cawn eto ei gweled,
Y gauaf caredig
A'i rhydd fel angyles yn ol.

O! deffro! O! deffro, fy nhelyn,
I ganu i'r gauaf yn gu!
I'm lloni bob amser mae gwanwyn
O dan ei wisg rewllyd i mi.

---

## MAE IONAWR WEDI ESGYN.

Mae Ionawr wedi esgyn,
Ac ar ei wyneb wên;
O'i gôf aeth cur ei goryn,
Mewn eira hyd yr ên;
I'r flwyddyn ieuanc, nwyfus,
Bu'n ffyddlawn, dygodd drefn
I'w mynwes afreolus,
Cyn hir y cana'n felus,
Mewn hoew acen lefn,
Am ysgwydd friw ddolurus;
Bendithiol a daionus
Fu'r fflangell ar ei chefn.

Mae Ionawr wedi esgyn,
A'r gauaf yn ei gôl;
Ei forthwyl rhew a'i fegin
Adawodd ar ei ol;
Ar gamfa wydrog Chwefror
Mae'n chwyfio'i bibell frau;
Pan wawria'r awr i agor
Ei bentyredig drysor,
I'w foliant ni bydd trai;
Ei gadair oer o fynor
Fydd testyn cerdd pob goror
Yn ymherodraeth Mai.

## CHWEFROR.

Yn cwynfan megys plentyn
  Mae Chwefror prudd ei wedd,
Wrth ddisgwyl am y gwanwyn,
  A charol bêr ei hedd ;
Mae gwrandaw cri'r afonydd
  Chwyddedig iddo'n faich ;
Anedwydd ac aflonydd
A fydd, nes clyw leferydd
Y gwanwyn yn y dolydd ;
  Adfydus fydd ei hanes,
  Trallodus fydd ei fynwes,
  Nes teimla ffrydlif gynhes,
    Ei chalon yn ei fraich.

Y nentydd (lu tafodrydd)
  Gan ddawnsio sydd yn dod,
I lawr dros lethrau'r mynydd,
  Gan doi pob craig â chlod ;
I gwrdd â chôr y dyffryn
  Cyflymant heibio'r bryn ;
Pob tafod a phob telyn
Ddyrchafa beraidd emyn,
I ddenu cân y gwanwyn ;
  Mewn hiraeth mae pob cangen
  Am sain ei acen lawen ;
  Daw natur ar ei haden
    I gwrdd ei gerbyd gwyn.

---

## MAWRTH.

Dros gant y nef dymhestlog,
  A brochus, glyglyd lef,
Ar gefn ei farch adeiniog
  Ardderchog gwelais ef ;
Hwn yrrai drwy'r wybrennau,
  O ! 'r oedd yn gyrru'n drwm ;

Goleuo y mynyddau,
Wnai 'i ddig wreichionllyd ffroenau ;
Ei fwng oedd ar y bryniau,
A grynent wrth eu godrau,
Fel cwmmwl du o blwm.

Er fod llais Mawrth yn arw,
A'i drem fel brathiad cledd ;
O fewn mae'n angel gloew,
O fewn mae'r oll yn hedd!
Yn cysgu'n drwm 'r oedd anian,
Ar ol ei blinol daith ;
Rhaid ydoedd dyrchu taran
Ei mwyn ei chodi allan,
O'i gwely gwlyb aniddan,
A'i hoerllyd, rewllyd wrthban
Ei chodi at ei gwaith.

Fe dry ei holl erwinder,
Ystormus, cyn bo hir,
Yn ffrydiau byw o bleser,
Yn fôr o dangnef clir ;
Ei 'stormydd blin newidiant
Cyn hir yn hafaidd fwyniant ;
O wybren brudd ei soriant
Daw cafod o ogoniant,
A harddwch dros y tir.

---

## MEDDYLIAIS FOD Y GAUAF.

Meddyliais fod y gauaf
A'i lu ym mhell cyn hyn ;
Ei wyneb serchog gofiaf
Wrth ganu'n iach â'r glyn ;
O fewn ei lon wynebpryd,
Un arwydd wan ni welid,
O fwriad i ddychwelyd.

Un boreu, er fy syndod,
Yn fraich-ym-mraich yn dyfod,
Pwy ddeuai i'm cyfarfod,
  Ond Mawrth a'r gauaf gwyn;
Fy anwyl hen gydnabod
  Y serchog auaf gwyn.

Cyn hir â'r ddau yn drindod,
Un lechai yn eu cysgod,
Ei wyneb oedd mor hynod,
  Dieithred ef os myn;
Mor hawdd oedd ei adnabod
  A delw haul mewn llyn.

Cyn braidd fy mod yn barod
I eistedd mewn myfyrdod,
  Er ceisio deall hyn,
Nid oedd ond dau i'w canfod—
  Mawrth dewr a'r gwanwyn gwyn;
Fy anwyl hen gydnabod
  Y siriol wanwyn gwyn.

Meddyliais fod afiechyd
  A chystudd wedi ffoi,
Fod gauaf garw bywyd
  Yn wanwyn wedi troi;
Ond breuddwyd oedd y cyfan,
  A buan teimlais hyn,
Uwch sŵn fy mron yn curo,
Neu'n gwrandaw poen yn curo,
  O fewn fy nhalcen gwyn.

Pan ddaw i'n cwrdd y boreu
Briodas, wrth y sodlau
Bydd angladd lawn o ddagrau,
  Yn duo ael y bryn;
Tra'r elor drom yn griddfan
O dan ei baich aniddan,

A chloch y llan yn cwynfan
  Gnul oerllyd yn y glyn :—
Rhaid ydyw ar y ddaear
Wrth ddyfroedd chwerwon galar,
  Er gwneud y tant yn dŷn ;
I seinio'r gerdd chwareugar
A'r gathl fythol ddengar
  Y pur i'w galon dŷn ;
O'i loes yn amyneddgar,
  O'i ddagrau wedi hyn,
Daw gwanwyn bythol hawddgar
  A haf tragwyddol, gwyn.

---

## Y GWANWYN ETO DDAW!

Cyn hir try'r trwf yn dangnef,
  A'r gwyll yn chwarddol ddydd ;
Y storm a elwir adref—
  Ferwinol ddaear brudd ;
A heibio'r du orthrymder,
  I gilio mae dy fraw ;
I drwsio ac i adfer
Dy wywllyd welw wyrdd-der
  Y Gwanwyn eto ddaw !

Yr Hwn fu'n ceulo'th fronnau,
  Eu dadmer wna a'i Air,—
Dy oerion gannaid ddagrau
  Ddwg i ti wawr o aur ;
Mae jiwbili caethiwed
  Dy ddolydd cu gerllaw ;
Yn ennill try dy golled,
A breinlen dy ymwared
  Y Gwanwyn eto ddaw !

Os bylchog yw dy gaerau,
  Os drylliog yw dy byrth,
Yn nesu at dy ddorau
  Mae llanw'r greol wyrth;
O fewn dy drist adfeilion
  Mae'r gudd Anfeidrol Law;
Yn ol a'th berlog geinion,
A'th ogoneddus goron,
  Y Gwanwyn eto ddaw!

Cyn hir y gafod dawel,
  Gariadus, wna dy drin;
Cusanu wna yr awel
  Y gwynder o dy fin;
O gyrhaedd saethau'r gelyn
  Yn iach y'th welir draw;
Acenion miniog dychryn
A gollir o dy delyn,
  Y Gwanwyn eto ddaw;

Luddedig, flin bererin!
  Os bu y ffordd yn faith,
Mae'th yrfa ar ei therfyn,
  Neshau mae pen y daith;
O blentyn y tymhestloedd,
  Am ennyd fechan taw;
O disgwyl wrth y Nefoedd
Yng ngauaf dy flynyddoedd,
  I tithau Gwanwyn ddaw!

---

## EBRILL.

I Ebrill a'i newidiol wedd,
  Cyflwyno canig wnaf;
Fyth yn aflonydd yw ei hedd,
Anweddus yw acenion bedd
  Ar drothwy llawen haf.

Pan yr agora'r wawr ei dôr,
Digwmwl fydd ei grudd;
Ond pan ddaw'r hwyr a'i ddenol gôr,
Bydd ei obennydd claer yn fôr
O ddagrau 'i ddwyfron brudd.

Yn ofer treigla'r haul ei dòn
O gariad yn y nef;
Yn ofer daw y gwanwyn llon
A'i delyn beraidd ger ei fron—
Anfoddog ydyw ef!

Ni thycia gwên y lleuad gain,
Ni chwardd y seren ddydd;
Na melus fyth hudolus sain,
Yr eos obry ar y drain—
Ei wyneb, cuchiog fydd;

Fel ef mewn plwyf, a thref, a sir—
(Y dall o'r braidd a'i gwêl);
Mae llawer un i'w gwrdd yn wir,
Yn fustl du dry'r neithdar clir,
Yn wermod, ffrwd o fel!

---

## EBRILL. (eto)

Fel serchog gafod Ebrill,
Yn loew ac yn lân,
Dymunwn fod fy mhennill,
Yr hoffwn fod fy nghân;
Yn deffro per orfoledd,
A mwyniant ym mhob bron;
Ei chyngan a'i thangnefedd
A wna bob gwedd yn llon.

Fel maethlon gwmwl Ebrill,
  Fy Awen, boed dy gôl,—
Dy edyn fel ei esgyll,
  Yn gwyrddu bryn a dôl;
Yn tarddu byddo cariad,
  Fel blodau, ar dy rawd,—
Yn gludydd cydymdeimlad,
  Fel ef, tydi a wnawd.

Fel boch arddunol Ebrill,
  A gwawl ei ruddiau llaith,
Fo'm gwên a'm dagrau'n ennill
  I rywun ar y daith;
Gair mwyn a deigryn tirion
  I lawer trist cyn hyn,
A lanwodd i'w ymylon
  A goleu lawer glyn.

Goludog ydyw Ebrill,
  Mae cyfoeth yn ei hedd;
I'r gwanwyn rhydd ei bebyll,
  A'i gaethglud ddwg o'r bedd;
Hyawdledd leinw'i ddafnau,
  Mae iechyd yn ei wawr,—
Dros ysgol ei belydrau,
  Y nefoedd ddaw i lawr.

Tu cefn i geinion Ebrill
  Mi welaf Un sy'n fwy,
Yn fud a chudd yn sefyll,
  Yr Hwn a'u lluniodd hwy;
Mae Ffurfiwr y fath dlysni,
  O ddyn! yn meddu hawl
I'th alw i'w addoli,
  A'i gofio yn dy fawl.

Dros lys blodeuog Ebrill,
  A'i gaerau gweled wnaf,
Yn fyrddiwn yn ymgynnull,
  Orymdaith heulog hâf;
Mae'th ludded bron a darfod,
  Fis anwyl, daw i gau,
Cyn hir, dy ddwyfol bennod,
  Heirdd fysedd mwynion Mai.

Pan ddaw i gyrchu Ebrill
  Gerbydau'r wybren lâs,
Er haeled fu, o'i weddill
  Geill fforddio byw yn fras,
Ac eistedd lawr yn ddedwydd,
  Fel ef ar ben y daith,—
Gwyn fyd a gaiff obennydd
  Mwyn, esmwyth, yn ei waith.

---

## MAI.

YMOLLWNG i'r llanw a wnaf—
  Hardd lanw dihalog y nef,
A llynges gyfoethog yr haf,
  Yn dyfod i fyny mae ef;
Claer donnau'r trofanau yn awr
  A ddawnsiant ar drothwy y trai;
Daw'r huan dan chwerthin i lawr,
Dros risiau arianaidd y wawr,
  I rodio paradwys ei Fai.

Mae aden yr awel yn rhydd,
  Mae'r gelyn a'i blina mewn bedd,
Mewn blodau caiff dreulio y dydd,
  A'r nos mewn distawrwydd a hedd;

Ymsuddo i brudd-der ni wnaf,
Os methaf gael canig ddifai ;
A'm calon yn offrwm yr âf
At gyntafanedig yr haf,
Ei serchog, benheulog, hoff Fai.

Mor serchog nes denu i'w gôl
Gôr Ebrill âg amnaid ei fys,
Y gwcw a'r wenol i'r ddôl
A swynwyd gan heddwch ei lys ;
Y lleuad gariadus a fydd
Yn foddlon ar gyfran yn llai,
Ei pherlau tryloewaf a rydd
Yn serchog wrth orsedd y dydd,
Yn aberth a theyrnged i Fai.

Hardd odiaeth yw'r dyffryn bryd hyn,
Ymgylcha gan garol a chân,
I'w goryn mewn blagur mae'r glyn,
Ei dristwch ddiflanodd yn lân ;
O'u cŵyr ystafelloedd a'u tai,
Ymadael mae'r gwenyn yn fyrdd ;
Gorchuddio y llwybrau a'r ffyrdd,
Mae olion pelydrog traed Mai.

Mewn mantell o wyrdd-der di-ail,
Mae'r mynydd llwm, carpiog, yn awr ;
Yn canu ac ysgwyd ei dail,
Mae'r goedwig ysblenydd ei gwawr ;
Ffrwd nwyfus o fywyd didrai,
Lle bynag y troaf wna'm cwrdd,
Y meddwl o'r terfysg a'r twrdd
Gaiff dawel angorfa yn Mai.

## MAI. (eto)

Mai welais ei geinion yn taenu,
  Mor llon ac mor iach ag erioed;
Mae rhos ac mae lili yn tarddu
  O'r mannau y sangodd ei droed:
Mwy mwyn er ei ddyfod yw'r awel,
  A harddach a gwyrddach yw'r dail;
Ei wylio ar ysgwydd y gorwel,
  Yn gwenu fel angel, mae'r haul.

Y nef sydd yn llawn o dangnefedd,
  Ei yfed, i ysbryd ddwg hedd;
Y ddaear sy'n llawn o orfoledd,
  Ei wrandaw i galon rydd wledd
Y llygad nid ydyw yn blino,
  Yr oll sydd mor gywrain a drud;
Pob delwedd a wela sy'n gwisgo
  Rhyw fythol newydd-deb o hyd.

Tlws odiaeth yw coryn y mynydd,
  Arddunol yw gwyneb y ddol,
Symudwyd holl rychiau ei cherydd,
  Heb ado rhith eilun o'u hol;
Digrifwch, llawenydd, a mwyniant,
  Ymgylchant ar lechwedd y bryn,
A gorwedd mae môr o ogoniant
  Ar emrynt amryliw y glyn.

Rhyw felus, ddiddanus gerddorfa
  Yw mynwes serenog pob llwyn;
Y ffynnon fyrlyma drwy'r borfa,
  Ei ffrydlif ymdroella drwy'r brwyn:
Ag araf symudiad hamddenol
  Ei thon, er yn ieuanc a gwan,
Sy'n anwyl gan feillion breuddwydiol,
  A chrinllys chwareuol ei glàn.

Cael rhodio y sanctaidd dawelwch,
  I feddwl myfyriol a phur,
Sy'n wynfyd yn wir a dedwyddwch,
  Sy'n bleser heb golyn na chur;
Balm enaid a leinw'r unigedd,
  Prydferthwch sydd yma yn byw;
O! 'n dwyn fo golygfa mor rhyfedd,
  I feddwl yn uchel am Dduw.

I feddwl am faint ei dosturi,
  A mawredd ei ddoniau i ddyn;
Ef wisga ei ddaear a thlysni,
  Ef lywia ei flwyddyn ei Hun:
O'i fynwes anfeidrol a'i gariad
  Mae'r oll o'i fendithion yn dod:
Y cwbl gais ganddo yn daliad
  Am danynt yw dadgan ei glod.

I'r Hwn sydd bob boreu yn estyn
  Y dydd i oleuo ei byrth,
Nid gormod yw plygu ei ddeulin,
  I wylaidd gydnabod y wyrth;
Os metha dylanwad ei allu
  Mewn creu, ei orchfygu, O! gwnaed,
Yn ddadl ei benaf ddaioni,
  A Dwyfol hyawdledd ei waed.

Ni fedra haf llwythog o geinder,
  Er maint yw lledneisrwydd ei wawr,
I ysgar pechadur a'i falchder,
  Na dwyn ei uchelgais i lawr;
Y gauaf ystormus a garw,
  Dwfn wraidd ei elyniaeth ni thŷn
Yr olwg ar Greydd yn marw
  I'w gadw, yn unig wna hyn.

## MEHEFIN.

Awn allan y boreu plygeiniol,
Ein galw mae engyl y glyn;
I'r meusydd meillionog, arddunol,
Mehefin cariadus a siriol,
Wnawn ynddynt gyfarfod bryd hyn.

Mae'r nentydd yn chwerthin mewn lili,
Mae'r llynnoedd yn eistedd mewn rhos;
Yn gwrido mae'r llwybrau a'r perthi,
Dan gusan y sanctaidd oleuni—
O! mae yr olygfa yn dlos!

I lawr o'r mynyddoedd, o'i babell,
Daw'r bugail yn serchog ei wedd;
Adseinia'r dyffrynoedd â'i bibell,
Yng nghanol y frefol ddeadell,
A'i fynwes yn orlawn o hedd.

I'r distaw gysgodol gorlanau
Sy'n llawn o orfoledd a chân,
Mae'r afon yn estyn ei breichiau
I fyny i'r gwyrddion geulanau,
I'w derbyn, i'w gwneuthur yn lân.

Mae'r cneifiwr a'i wellaif yn barod,
Mae'n noeth hyd yr ysgwydd ei fraich,
I'w lywio drwy'r gwynder di-ddarfod;
Pan ddisgyn yr hwyr, ei gyfarfod
Wna'n ddedwydd ar goryn ei faich.

Sŵn chwerthin a hogi pladuriau
A glywir drwy'r meusydd yn awr;
Tra'n canu mae'r llawen langcesau,
Wrth lusgo a chwyfio'u cribiniau,
Yng ngoleu pelydrog y wawr.

Y wîg a rydd heibio ei thelyn,
  O'i mewn mae'n ddistawrwydd a hedd;
Er gwrandaw mêl-odlau Mehefin,
Mab tecaf, prydferthaf y flwyddyn,
  Ac yfed o wenau ei wedd.

Mor llawen a mam ar ei deulin
  Uwch cerub chwarëus ei chryd;
Yw natur flodeuog ar erchwyn
Dryloew, gwlith perlog Mehefin,
  A'i gwyneb yn gariad i gyd.

---

## GORPHENAF.

Fel ffwrn yn awr
Yw'r wybren fawr,
Mae'n goch y wawr
  Gan derwyn wres;
O'i euraidd lawr
Daw'r nefol gawr
I'w hwyrol awr;
  Drwy'r fflamllyd dês,
A'i glafaidd sawr
I osod lawr
  Ei helm o brês.

Y ddôl, rhag sèn
Y ddisglaer nen,
I'w lletaf bren
  Ei phlant wna ddwyn;
Tra'r dydd uwch ben
Yn arllwys cen
Ei fynwes wen
  Ar berth a llwyn;
Neu'n darpar llen
I loew fen
  Y lleuad fwyn.

Yn awr, O ! 'r wledd !
I'r fron ddwg hedd
Dihalog wedd
  Y wylaidd nos,
O'i gemog sêdd,
Draw yn ei fedd
Mae'r haul digledd
  A'i gwnaeth mor dlos,
Efe a fedd
  Ei pherl a'i rhos.

O'r wybren fwyn,
Ddi-ŵg ddi-gŵyn,
Pelydra swyn
  Yn fôr i lawr;
Dellt aur â'r brwyn,
Y llyn drwy'r llwyn
A chwardd wrth ddwyn
  Ei chanaid wawr,
I'r balch â ffrwyn,
  Daw'r nosawl awr.

Holl ffrydiau'r glyn
Amdoir bryd hyn
Gan leufer gwyn
  Y llonydd ser;
Tra'r lloer a dŷn
Ar foch y bryn
Ddelweddau syn
  A'i phwyntil têr
A'i grisial gŷn
    O'r haf-nos bêr.

---

## AWST.

A CHEINION y Trofanau
  Dychwelodd Awst yn ol;

Aur melyn yn ddyrneidiau,
  O'i gistiau, gaiff y ddôl,
Nes tori maes i ganu
  Yn fwynach nag erioed;
Gan synnu a rhyfeddu
  Yr urddas arni roed.

Acenion mwynion cariad
  Ddyhidlent dros y mîn,
Disgynent ar y teimlad
  Yn ffrwd o nefol rîn;
O'r galon pob rhyw gwmwl
  O brudd-der sydd yn ffoi,
Holl bryder dwys y meddwl,
  I fwyniant sydd yn troi.

Yn eistedd mae tangnefedd,
  Fel angel ar bob bryn,
A chefnfor o orfoledd
  Orwedda ym mhob glyn;
Rhyw ddirgel gudd ddylanwad
  Dry 'r meusydd oll yn fyw;
Pêr gerdd eu gweddnewidiad,
  Clust deneu'r awen glyw.

Ar fin y gamfa dawel,
  Caf draw orphwysfa glyd,
I olrhain rhawd yr awel
  Drwy'r tonnog, heulog yd;—
Amaethwr! brysia allan,
  O'r tô y cryman tỳn,
Dyheu am borth dy ydlan
  Mae'r erwau breision hyn.

A chyfoeth o haelioni
  Mae'r Nefoedd wedi dod;
Cynhauaf ei ddaioni
  A eilw am dy glôd;

I gwrdd yr un dywysen,
  Tydi ni feddi hawl,
Heb fron ddiolchgar, lawen,
  A chalon lawn a fawl.

O ! 'r llanw gwyn, diderfyn,
  O drugareddau drud ;
A fydd i ni eu derbyn
  Fel yr anifail mud ?—
Na, molwn hael Gynhaliwr,
  Miliynau'r ddaear faith ;
O ! doed fel haul yr Awdwr,
  I'n golwg yn ei waith.

## MEDI.

Os yw y cynhauaf dan do,
  Yn iechyd i'r galon bydd codi,
Er myned i grwydro am dro
  I'r meusydd a'i magodd, yn Medi.

A'r ysgub ddiweddaf yr aed,
  Er hynny daw plant y tylodi
I loffa yn olion ei thraed,
  Yn rhad, fodd i wledda, yn Medi.

Os clyd yn yr ydlan yw'r ŷd,
  Yn aros mae yma'r goleuni;
Y gwlith a'r lon gafod o hyd,
  Ei ddoniau addfedol yn Medi.

Mae'r perthi gan fiwsig yn fyw,
  Y garol nid yw yn distewi;
Gorfoledd ddyhidla o friw
  Y cryman blinderus, yn Medi.

Heb swn yn y buarth mae'r fèn ;
Mae'r blinion geffylau yn pori ;
Mae'r bladur mewn gwellt dros ei phen,
Yn cysgu yn dawel, yn Medi.

Y llanciau ollyngwyd yn rhydd ;
Mae'r dedwydd enethod yn canu ;
Mae'r Hwsmon a gwên ar ei rudd,
Ei ludded anghofia, yn Medi.

Mae'r oged yn grog ar y mur ;
Mae'r aradr mewn bedd o fieri ;
Mis melus i orffwys yn wir,
A Sabbath y Flwyddyn yw Medi.

Mis diolch a phlygu y lin
I Dad y Cynhauaf a'i foli ;
Mis tawel diderfysg i ddyn,—
I feddwl am dano, yw Medi.

---

## LLEUAD Y CYNHAUAF.

Yn edrych dros y bryn,
Mi'th welaf, Leuad hardd ;
Dy wên a dry y glyn
Fel paradwysaidd ardd ;
O ! mae yn deg. O ! mae yn ddrud !
O fewn dy wawr, y meusydd mud.

Dy wyneb gwridog, glân,
Dy wefus serchog, fwyn,
A ddena gerdd a chân
O fron pob clawdd a llwyn ;
Ym mhlith lleuadau 'r flwyddyn, bri
Eu holl brydferthwch ydwyt ti.

Cain odiaeth yw dy lith
 Uwch y clustfeiniol rawn;
Yn orlawn mae y gwlith
 O'th fyw addfedol ddawn;
Cynhauaf welir cyn bo hir,
Yn eistedd yn dy olau clir.

O! lwys, ardderchog Loer!
 Nid ydwyt ti mor dlawd,
Nid yw dy fron mor oer,
 Nid wyt mor brudd dy rawd,
Ag creda'r llu, deg Loer, dy fod;
Maent ddall i'th geinion a dy glôd.

Nid benthyg ydyw gwawl
 Dy dêr belydrog wedd;
Na, prynaist hwynt â'th fawl,
 Dihalog aur dy hedd,
I'th fynwes lân hawl gyfiawn rydd
I wisgo gemau goreu 'r dydd.

Edrychi ar y môr,
 A'r llanw 'fyny ddaw,
Gorwedda wrth ei ddôr
 Yn esmwyth dan dy law;
Rhydd lawr ei dòn aflonydd, flin,
I yfed ffrwd dy loew fin.

Edrychi ar y tir,
 A theimla Natur wan
Gefn llanw mil mwy clir,
 Mwy pur, yn dod i'r làn;
A fodda ei gauafol boen,
A'i lleinw â'r dedwyddaf hoen.

I fron y cwmwl gwyn,
  A'i chwarddol, siriol sêr,
Mae swyn o'th fewn a dŷn
  Fy nghalon at ei Nêr:
Yr Hwn, â'i fraich anfeidrol gref,
A'th lywia di drwy lâs y nef.

Gynhauaf anwyl! llen
  Y ddistaw Loer a rydd
Yn gysgod uwch dy ben,
  Yn nhanbaid dònau'r dydd;
Yn eiriol mae ei dagrau hi
Yn llys yr Haul am hedd i ti.

---

## SWPER Y CYNHAUAF.

GOSODWYD y danteithion
  Yn mygu ar y bwrdd,
Mae'r llanciau a'r morwynion
  Yn daclus wedi cwrdd;
Mae'r teulu yno'n gryno,
  Bob un â llawen wedd,
Pob mîn o hedd yn llifo;
Ond y dedwyddaf yno
  O bawb, yw llyw y wledd.

Pe gallwn, tynnwn ddarlun,
  O'r cylch rhosynog iach,
O'r gŵr oedd yno'n frenin,
  Hyd at y forwyn fach,
Sydd wrth ei draed yn eistedd,
  A'i chalon ddedwydd, gudd,
Mewn llonydd fud orfoledd,
Yn plethu ei harddunedd,
  Yn enfys ar ei grudd.

Y ci a'i lygaid mawrion,
  Serenog, dan y fainc,
A'r gath a'i gwrychol gynffon
  Yn fyw o fewn fy nghainc
Gaent le, pe medrai'r awen,
  Eu nodweddiadol ddawn,
Mor glir a goleu heulwen,
Ddymunwn roi mewn llawen,
  A chlaer ddelweddiad llawn.

Mae'r crochan yn bwrlymu
  Ar fin y pentan gwyn,
Tra'r tân îs-law yn gwenu
  Wrth wrandaw'r sŵn yn syn;
Yn nhonau y pelydrau
  Uwch ben mae'r cryman blin,
A gwain o ŷd a blodau,
Gorlwythog o aroglau,
  Yn cuddio 'i loew fin.

Ystafell oreu'r tyddyn
  Yw hon—O! mae yn hardd;
Y barlys barfog, melyn,
  O fewn yr onglau chwardd;
Mae'r mûr yn orchuddiedig
  Gan wenith ceinwawr, tlws,
Tra'r ceirch â phen sigledig,
O'i safle ddyrchafedig,
  Yn crynu uwch y drws.

Amaethwr! serch dy ddwyfron
  Esgyno gyda hwy,
At Dad dy holl fendithion,
  Ag offrwm byw, diglwy;

Dros ysgwydd y cynhauaf,
  Uwch coryn aur dy stôr,
Yr hwn a'i rhoddodd, welaf,
A llygad o'r serchocaf,
  Yn edrych tua'th ddôr.

Ni thybiwn fod yn ormod
  Ger bron fath ffrydlif hardd,
O gariad, i gydnabod
  Y ffynnon lle y tardd;
Y dyferynau breision
  O râs fo'n denu côr
O fyfyrdodau gwynion,
I ŵydd eigionau dyfnion
  Ei anfesurol fôr.

Yr oll y mae yn geisio
  Am fyrdd o roddion rhad,
Yn unig yw ei gofio—
  Ei gofio fel ein Tad;
Hyawdledd ei drugaredd
  Ar fynydd, bryn, a dôl,
A'n llanwo o edmygedd
Nes codi o'i oferedd,
  Yr enaid ar ei ol.

---

## MARWOLAETH YR HAF.

GORFFENNAF! uwch dy enw,
  Dyferu deigryn wnaf,
Fel cloch o'i fewn sy'n galw
I'r lan fy nghalon weddw,
  At wely marw haf,

Pan âf i'r ardd y boreu,
Ol tristwch yno gâf,
Yn plygu lawr eu pennau
Yn wylo mae y blodau,
Yn marw mae eu haf.

Y nos a'i chlaer gostrelau,
Wrth ei obennydd sâf,
Yn iro'i boeth wefusau,
Yng ngwrid ei foch darllenai,—
I farw mae yr haf.

A chwmwl wedi rhwymo
Ei phen, mae lleuad glaf,
Gwrthoda ei chysuro,
Dynesa'r awr i gludo
O'i gŵydd y serchog haf.

At awdwr y tymhorau,
A Thad fy ysbryd âf,
Am nerth i gwrdd âg angau,
Am dawel wybren olau
I farw fel yr haf.

---

## HYDREF.

Fel gweddw brudd yn cwyno
Yn drist mae'r goedwig fawr,
Mae'r Hydref wedi'i chlwyfo,
Ei dail borffora'r llawr;
Dynoethwyd ei chysgodau
A'i chysegredig lwybrau,
Cartrefle'r tecaf flodau,
A'r mwyn ddihalog olau—
O! baradwysaidd wawr.

Lle bu yr haf a'r awel
  Yn cymdeithasu gynt,
Mor ddedwydd a dau angel
  Ar lawer hafaidd hynt;
Yn awr cuddfeydd godidog
Yr heirdd efeilliaid serchog
Diddanus a thrugarog,
O u mewn fel baedd cynddeiriog
  Yn rhwygo mae y gwynt.

Ei breichiau noethion bwysa
  'N wywedig ar ei bron,
Ei dwylaw moelion goda
  Yn yr awyrol dòn,
I fyny yn ofidus,
A golwg dorcalonnus—
O! teimla yn alarus,
Hiraethlon ac adfydus,
  Ar ol ei gwyrdd-der llon.

Diflannodd ei diddanwch,
  Yn ddistaw aeth y gân;
Machludodd holl brydferthwch
  Ei hymherodraeth lân;
Ei phleser drow'd yn riddfan,
Mae weithian wrth ei hunan,
Mae'n fudion bibau arian
Ei chôr—dyhuddodd anian
  Ei chlaer farddonol dân.

Mae'r glöyn byw fu'n nofio
  Ar fôr ei gloew hedd,
O'r golwg wedi cilio,
  Gorwedda yn ei fedd.

Mae heddyw yn ddrylliedig
Neuaddau cysegredig
Yr awen eneiniedig,
Lle lloffodd lawer canig,
  Lle profodd lawer gwledd.

Mwyhâ, trymhâ ei dolur,
  O'i blaen mae Tachwedd blin,
A chwpan rhewllyd Rhagfyr,
  A'i ddu gymylog fin;
Rhaid croesi'r gauaf gerwin,
Ac Ionawr llawn o ddychryn,
Drwy lawer chwerw ddryc-hin,
Cyn cyrhaedd porthladd gwanwyn,
  A thangnef hafaidd hin.

---

## HYDREF (eto).

Y NIWL a gyfododd o'i babell;
  Y llwydrew a ddringodd y coed;
Ar loewon ffenestri'r ystafell
  Y gwelir llaith olion ei droed;
Distawodd cainc dyner yr awel,
  Ei chwrdd ni wnaf mwy ar fy hynt,
O'i llwybrau claeriannol a thawel,
  Y clywir llais garw y gwynt.

I gyfarch y llygad daw'r gangen,
  Gan ysgwyd a chwynfan mewn braw,
Y gangen a wenai mor llawen
  Dan esmwyth gyffyrddiad ei llaw,
Neu ffrydiol ddedwyddwch ei chusan;
  Yn curo ei dwyfron mae hon
Ar ymyl y clogwyn aniddan,
  Yn brudd a galarus ei bron.

Yr ardd wnaent yn fynwent i'w blodau,
  Ei mynwes gan feddau sy'n llawn;
Mewn dagrau fe'i gwelir y boreu,
  Mewn dagrau fe'i gwelir brydnawn;
Pêr arogl ei llysiau a gollwyd,
  Eu llwch a gymysgwyd â'i phridd;
Y mannau gan dlysni oleuwyd,
  Tew gwmwl o dristwch a'u cudd.

Cu adail yr Awen a'i chuddfa,
  I'w gofid a dynwyd i lawr;
O'r siriol, ddeniadol orffwysfa,
  Nid erys un ddeilen yn awr;
Y llwyn ar yr hwn bu yn pyncio
  Y Fronfraith a'r Fwyalch mor glyd,
Cof-golofn o'r difrod fu arno,
  Saif heddyw yn welw a mud.

I fywyd cudd Natur mae llanw,
  Ac iddo mae hefyd ei drai;
Pan i ni ymddengys yn farw,
  Nid yw ei weithgarwch yn llai;
Pan fyddo y gangen a'r brigyn,
  A'r cwbl o'u hamgylch yn wyw,
Pryd hynny o'r golwg, mae'r gwreiddyn
  Yn iraidd, yn nwyfus, a byw.

Pan ydyw yr effaith yn newid,
  Yr achos a erys yr un;
Anfeidrol a Dwyfol yw bywyd,
  Nis gellir ei weled gan ddyn;
Geill Anian freuddwydio yn ddedwydd,
  Geill gysgu yn dawel y ddol;
Ac angel ei bedd ar ei ysgwydd
  Yn fuan dychwela yn ol.

Anghofiant fwrdd llwm y noswylio,
A thrymder wylofus ei wedd,
Yn llonder hael foreu'r dihuno,
A'i chwardd, a'i ddigrifwch, a'i wledd;
Ystormydd y Gauaf anghofiant
A'i dreiddiol erwinder yn lân,
Pan Ynys y Gwanwyn gyrhaeddant,
A'i gefnfor digeulan o gân.

---

## ARWYDDION O DDYFODIAD GAUAF.

Mae'r Haul yn hwyr yn codi,
Yn gynnar ä i'w wely;
Cymylau duon holltant fron
Der afon ei oleuni.

Mae dryc-hin yn dynesu,
Mae'r wennol wedi cefnu,
Tu draw i'r môr, i geisio gwedd
Yr hedd, mae wedi golli.

Mae wedi blino Robin,
Ar arlwy brin y dyffryn;
Yn awr, yn troi i ddrysau'r dref
Mae ef, a'i beraidd delyn.

I'w glywed hwyr a borau,
Yn adsain o'r mynyddau,
Mae corn y bugail; dwg ei bell
Ddiadell i'w chorlannau.

I'r gwenyn nid oes blodau,
O fewn eu cywrain gaerau
Ni chlywir swn;—y morgrug blin,
Mewn melus hun maent hwythau.

Mae'r hin bob dydd yn oeri;
Mae'r weddw Loer yn caru,—
  Mae anadliadau *dau* yn dew,
O'r eiddew yn dyferu.

Mae'r awel fwyn yn cwynfan;
Mae'r gwynt yn dechreu chwiban;—
  O brudd weddillion teml haf,
Cwyd clafaidd swn aniddan.

Dan draed y storm dymhestlog,
Gorwedda'i thô pelydrog;
  I gistiau Hydref cludwyd bri
Ei llu colofnau serchog.

Mae yn yr oll a welaf;
Mae yn yr oll a glywaf;
  Arwyddion sicr fod gerllaw
Yn ddistaw, *Deyrn y Gauaf.*

Ni raid ond aros enyd
Er gweled ei wynebpryd;—
  Er maint ei dwrf, mae iddo fron
A chalon ddifrycheulyd.

Y ddaear wyw a gara,
Er cymaint arni gura;
  I ddyn fe'i dychwel cyn bo hir
Mor bur a'i fantell eira.

O athraw gwyn, fe'th garaf;
Dy rewllyd wers a ddysgaf;—
  Mi geisiaf ddarpar heddyw'n gall,
Ar gyfer arall Auaf.

# TACHWEDD.

Yn feichiog o dymhestloedd
  Mae Tachwedd wedi dod,
O oerllyd bell fynyddoedd
  Ei drist begynol nôd;
Mae delw ei breswylfod
O fewn ei wedd i'w chanfod,
O'i lygaid llifa trallod,
Yn gesair try y gafod,
  A'r gloew wlith yn ôd.

Awdurdod ar yr afon
  Ddolenog iddo roed,
Ei serchog ddyfroedd gloewon
  A geulant dan ei droed;
Mae'r ieuanc dòn aflonydd
Yn fud o dan ei gerydd,
Yn gwingo rhwng y glennydd,
Ei hoew wadnau dedwydd
  Mewn cyffion rhew fe'u clöed.

Yn casglu ei deadell
  Bu'r nos i'w chorlan gu,
I'w chuddio rhag ei fflangell
  O gyrhaedd braw ei ru;
Mae ffenestr fawr y lleuad,
Drwy hon edrychai cariad,
A'r puraf gydymdeimlad,
Mor serchog, wedi'i chauad
  A'i faner löaidd ddu.

Daw'r wawr fel mûn amddifad
  I lawr â gwelw rudd,
Y dagrau leinw'i llygaid
  Uwch ben y ddaear brudd;

Y mentyll heirdd o flodau
Brydferthent ei thirweddau
Ysbeiliwyd; rhyw ddyrneidiau
O niwliog wlybion garpiau
  Yw'r oll yn awr a'i cudd.

Ychydig risiau eto
  Sydd i ti drwy y twrdd
O ddaear gu, cyn teimlo
  Yn toddi oll i ffwrdd
Fel cŵyr dy oerion rwymau,
Yn brysur hwyr a borau,
Yng nghelloedd ei thrysorau
Mae'r nefoedd, ei cherbydau
  Cyn hir a ddaw i'th gwrdd.

Pob angen a gyflenwir,
  Yn anghof ä dy glwy',
Y boreu y dadguddir
  Eu cain oludoedd hwy
Yn llawnion daw dy fronnau,
Er maethu dy filiwnau,
Llawenydd a chaniadau
Gwefreiddiol, a phleserau
  A fydd dy gyfran mwy.

---

## RHAGFYR.

O OGOF y corwynt, yn llaith,
  Daeth Rhagfyr o'r gadwen yn rhydd,—
Cymylog a thonnog fu'r daith,
  O'i garchar i dalaeth y dydd;
Dwyn olion ystormydd a wna,
  Pe tawai, yn dystion o hyn,
Yw'r gwisgoedd gorchuddiol gan iâ,
  A'r gwallt a wnaeth dychryn mor wyn.

Y dreigiau a'i gwyliai, o'i du
 Enillodd, mewn sychdod gwnaeth fwy,—
O'u bronnau yn sugno y bu,
 Ac aeth mor ddigofus a hwy;
Erglywch ar y bannau ei lef,
 Oer seiniau cwynfanol ei dwrdd
Ddwg brudd-der i wyneb y nef,
 Ei llonder a giliodd i ffwrdd.

Y ffrydlif chwareuol a chlaer
 A hoeliodd yng nghesail y bryn,
A'r lamol afonig—ei chwaer,
 Wrth waelod ei gwely yn dŷn;
Gwyleiddo mae'r dderwen ei hun,
 Arswyda rhag dyrnod ei air;
Y rhaiadr ewynog ei fin
 Mae'n gandryll ar feini ei phair.

Ei gysgod aflonydd a du,
 Mur gemog y gorwel sy'n toi,—
Rhag taran frawychus ei rhu
 Mae'r cwmwl wylofus yn ffoi;
Y lleuad, wrth edrych i lawr,
 A'i canfu yn gyrru yn drwm;
Ter amrant, llon lygad y wawr
 Wnaed ganddo fel amrant o blwm.

Ond aros yn foddlon am dro,
 Yn fuan daw'r cwbl i drefn;
Mae Un ag agoriad pob clo
 Yn rhodio'n hamddenol tu cefn;
Yr Hwn a ddehongla cyn hir
 Lith Rhagfyr cyfriniol ei wedd,
Gwna'r oll yn ddiamhwys a chlir,
 Mewn pennod belydrog o hedd.

## CYFARCHIAD I'R FLWYDDYN YN RHAGFYR.

ER myned o'r flwyddyn yn llwm ac yn hen,
  Mae carol ei chalon yn llon;
I fyny drwy'r eira pelydra ei gwên,
  Drwy'r rhew, chwardd tangnefedd ei bron.

Drwy gryglyd acenion llymdreiddiol y gwynt,
  Anturia â chamrau difraw;
Dŵg Rhagfyr i deimlo fod gras yn yr hynt—
  Fod cariad yng ngwasgiad ei llaw.

O! ddyn, os yw'r flwyddyn yn welw ei gwedd,
  Os ciliodd ei mawredd a'i bri;
Daeth hyn ar ei gwarthaf wrth weini i'th hedd—
  Ei cholled fu'n elw i ti.

Ei blodau wywasant, fe'u claddwyd i gyd,
  O'i cheinion ni erys yr un;
Yng nghanol y noethni, mae'n ddiddan a chlyd,
  Ym mhurdeb ei dwyfron ei hun.

Geill farw yn dawel, gorffenodd ei gwaith,
  Er sychu ffrwd fywiol ei chôl;
A myrdd o fendition y gwynnodd ei thaith—
  Gadawodd fyd goleu o'i hôl.

Cyn hir bydd ei gyrfa flinderus ar ben,
  Yn fuan y derfydd ei chûr;
Ar ddyfod mae'r engyl i guddio tan len
  Ei gwyneb dihalog a phur.

Mae llygaid y wybren yn wlybion a phrudd,
  Edrychant yn athrist i lawr;
Yn sychu â'i aden mae'r cwmwl ei rudd,
  Yng ngoleu machludol ei gwawr.

Mae natur glwyfedig yn cwynfan yn drwm—
  Sŵn galar a glywir bob tu;
Yn llifo mae'r dydd rhwng ceulannau o blwm,
  Y wybren dymhestlog a du.

Mae'r ganaid orymdaith yn prysur grynhoi,
  Diosgant eu pennau mewn parch;
I arllwys eu hiraeth o'r neilldu rhaid troi
  O wyddfod yr elor a'r arch.

Mae gwawr ei hymwared ar dorri yn awr,
  O uchder anfeidrol ei rawd;
Ymestyn mae'r nefoedd gyfoethog i lawr
  I dderbyn y flwyddyn dylawd.

O! dlodi cyfoethog, ardderchog! o'i werth
  Ni welir yr awrhon ond rhan;
O! wendid godidog, ar ysgwydd ei nerth,
  Daw'r gwanwyn yn fuan i'r lan.

O! flwyddyn garedig, dy foli a wnaf,
  A chysur goleuaist fy ngwedd;
Yn nyfnder fy mwyniant, gadawodd dy haf
  Ryw eigion tryloew o hedd.

Yr adgof o'r tlysni glaeriannai dy fin,
  Rydd i mi ddedwyddwch a gwledd;
Blodeua y meddwl gwywedig a blin
  Yn sanctaidd gysgodau dy fedd.

Ymsaetha fy ysbryd o'r berw a'r poen
  Drwy ganol y caddug a'r twrdd;
Yr fryniau'th fyd newydd, mewn iechyd a hoen,
  Gobeithiaf caf etto dy gwrdd.

Dy dafod rhewedig fydd yno yn rhydd,
  Y'th wefus yn wridgoch a glân;
Tu hwnt i'r ystormydd, mor felus a fydd,
  Ffrwd wefrol risialaidd dy gân.

## YMADAWIAD Y FLWYDDYN.

DIOSGAI y flwyddyn ei pherlau
  Yr gamfa ddiweddaf ei chaer,
Y thaflodd ei gwydrog allweddau
  I'r llwybr ffordd deuai ei chwaer;
Ei gwregys o rew a ddatododd,
  Ei mantell ollyngodd yn rhydd,—
Ac yna i feddwl eisteddodd,
Wrth edrych o'i hol ocheneidiodd,
  Tra'r dagrau yn boddi ei grudd.

Ei memrwn o'i mynwes a dynnodd,
  Tra'i gwefus yn crynu gan fraw,—
Yn wylaidd o'i llaw fe'i estynnodd
  I'r angel a safai gerllaw;
Disgwyliai (wrth drwsio ei hedyn)
  Yr awr i'w gorchymyn i ffwrdd;
A'r bys yn cyfeirio tua'r dyffryn,
A'i lonydd drigolion mae'n esgyn
  Gan sibrwd—"Fry! eto cawn gwrdd."

Ei holaf gyfarchiad difrifol
  A gofia fy nghalon yn hir,—
Amwysedd y frawddeg gyfriniol
  Ddieithriol yn fuan ddaw'n glir;
Gwae i ni os gwnawn ei chyfarfod
  Yn wgus a digllon ei gwedd,
Ni dderfydd ein galar na'n trallod,
Storm ddeffry o fewn y gydwybod
  Na wela fyth hindda na hedd.

Nid oes ond ei Chrëwr a'i Harglwydd
  All ffrwyno a dofi ei llid,
A gyru i fythol ddistawrwydd
  Ei rhuol daranau i gyd;

Athrawon wna'r pur o'i flynyddau,
  Er meddu cymhwyster i'w wlad;
Gwna risiau i'w dringo o'i groesau,
O dalaeth dymhestlog gofidiau,
  I fynwes gysgodol ei dad.

---

## GAUAF.

Bu'r gwanwyn yn garedig,
  A'r haf o'i ol yn hael,
Ond gorfu ar ychydig
  Eu gadael hwy heb gael;
Drwy'r goedwig, pan yn rhodio
  Gadawsant lawer pren
Oedrannus heb ei wisgo
Pan rhoent gymydog iddo
  Mewn blodau dros ei ben.

Nid felly yr ymddyga
  Y gauaf pan y daw,—
Ar bob peth gyfarfydda
  Gadawa ôl ei law;
Nid coed y maes yn unig
  A gaiff ei flodau ef,—
Addurna'r bwth drylliedig!
A'r castell adfeiliedig!
  A cheinion gerddi'r nef.

A phan y seinia'r Hydref
  Ei udgorn euraidd, drud,
I alw anian adref
  I'w hesmwyth wely clyd;
Anufudd, balch, a chyndyn,
  Arosa allan rai
O'i phlant, tan gaerau'r dyffryn;
Disgyna ei orchymyn
  Ar glustiau wedi cau.

Ni raid i'r gauaf groesi
  Dros drothwy perl ei lys;
Mae'n ddigon iddo godi
  Ei rew fodrwyol fys,
Er cael yr oll o'i deulu
  I roi ufudd-dod llwyr;
O tan ei wynion lenni,
Yn aros i'w croesawi
  Mewn gwledd, a diddan hwyr.

Efe yw tad y gwanwyn,
  A'r serchog, heulog haf,
A'r hydref prudd, a'i felyn
  Afiachus wyneb claf;
I ni y mae yn oerllyd,
  I ni ei gerdd sy'n dwrdd
Ystormllyd ac anhyfryd,
Ond mae i Natur wywllyd
  Y goreu mae yn gwrdd.

Os edrych mae yn arw
  A chwerw iawn ei wedd,
Mae'r dyfnder oll yn loew!
  Mae'r gwaelod oll yn hedd!
Rhaid oedd i Natur orwedd
  Ar ol ei hymdaith hir,
I'w thrwsio â thangnefedd
Cyfaddas i orfoledd
  Ei hadgyfodiad clir.

---

## GAUAF (eto).

Yn rhodio dan alaru
  Yr oedd y Lleuad wen,
Wrth weled Haul yn cefnu
  A chwmwl am ei ben;

Gwel ddryc-hin yn ei lygad,
  Gwel derfysg yn ei wedd,—
Prudd amdo guddia'i gariad,
  A gloaidd arch ei hedd.

Edrychodd tua'r ddaear,
  Dros dwr y corwynt croch,
A phlannodd gusan hawddgar,
  Pelydrog ar ei boch;
Cudd yn y cusan hwnnw
  'Roedd cydymdeimlad pur,
A serchog angel gloew
  I weini yn ei chur.

Un, yn ei holl drallodion,
  O'i thu yn ffyddlon saf;
Un ddwg i'w hoerllyd ddwyfron,
  Waed cynhes calon Haf;
Un bennodd rawd ei griddfan:
  Ei dychryn oll a'i braw
A bwyswyd yn y glorian
  Sydd yn ei ganaid law.

Daioni ddwg o'i fflangell,
  Tangnefedd ddwg o'i chroes,
Yn heulog gled ystafell,
  Gwna rewllyd gell ei loes;
Rhosynnau cochion eto,
  A chwarddant yn ei grudd,—
Daw eto i'w haddurno
  Ddigwmwl, hafaidd ddydd.

Tawdd Ebrill, wleb ei aden,
  Ei chadwen yn ei bair,
I'w ffurfio am ei thalcen
  Yn geindeg bleth o aur;

Llawenydd a gorfoledd
  Ddaw eto iddi'n rhan;
Mwyn odlau a chynghanedd
  Glyw eto yn mhob man.

I'w llwybrau gwiw daw meillion,
  Briallu hefyd dardd
Yn onglau'r bryniau geirwon,
  Mor anwyl gan y bardd;
Iach wyrdd-der eto welir
  Yn cuddio'r crinllyd goed,—
Cyn hir bydd arnynt flagur
  Mor brydferth ag erioed.

Ni chollodd un o geinion
  Ei gorsedd santaidd, ddrud,—
Pob gem oedd yn ei choron,
  Fe'u gwelir hwy i gyd
O fewn y goron newydd
  Y Gwanwyn iddi rydd;
Holl ddagrau heillt ei cherydd
  Yn ddiliau yno fydd.

---

## TELYNEG I'R FRIALLEN.

Eisteddwn un prydnawn yn ymyl boncyff, yng nghysgod yr hwn yr arferai ymagor briallen fawr hynod o brydferth, gyda chysondeb bob gwanwyn, yr hon ni wnaeth ei hymddangosiad eleni nes oedd mis Ebrill wedi dod i mewn. Hyn a fu yn achlysur i gyfansoddi y ganig hon.

Gu friallen, hardd friallen,
  Serchog, deffro;
  Cwyd i wrando
  Peraidd delyn
  Loew gwanwyn,

Chwery'n llawen
Yn yr heulwen,
Dlos friallen,
I'th addurno.

Lon friallen, fwyn friallen,
Deffro, deffro;
Wedi cilio,
Fun hawddgaraf,
Mae y gauaf;
Ar ei haden
Mae'r wenynen,
Mewn mawr angen;
Deffro, deffro.

Dêg friallen, gain friallen
Wylaidd, deffro;
Pam gwnei guddio?
Clyd yw'r awel,
Clir a thawel
Yw'r ffurfafen,
Ar bob cangen
Pyncia'r awen;
Deffro, deffro.

Lwys friallen, lân friallen,
Deffro, deffro;
Dydd sy'n gwawrio,
Bywiol glodydd
Yr uchedydd
Leinw'r wybren;
Ail i Eden
Yw'r dywarchen;
Deffro, deffro.

O'th obennydd gwlyb, friallen
Coda, coda;
O, nac ofna,

Mae rhwng pebyll
Gwlithog Ebrill
Nawdd i'th ddalen
Lednais seren,
Liw yr hufen,
O! dihuna.

Drwy y briddell, hoff friallen,
Dringa, dringa,
Brysia, brysia,
Nesha'r wennol
A'r gog siriol
Bêr ei hacen;
Dy addïen
Dalaith felen
Gwisga, gwisga.

Gad, O gàn, O lwys friallen,
Fro dy gyni
A'th dylodi,
Am belydrog
Wawl ardderchog;
Dol digynhen
Dry y dderwen
Fel llon hogen
A'i goleuni.

Esgyn, esgyn, wyl friallen,
Lawn barddoniaeth;
Dwys yw'r hiraeth
Deimla'r galon
Am dy dirion
Wyneb llawen;
Byw ysnoden
Wyt ar dalcen
Gwyn marwolaeth.

Cwyd i'r lan dy ben, friallen,
Hoew, hoew;
Yn dy alw,
O hir ludded
Dy gaethiwed
A dy gadwen,
Draw o'r fedwen,
Mae'r golomen,
Wrth dy enw.

Dyrcha, dyrcha, eur friallen,
Yn orlifol
Gân blygeiniol
Hedd yw'r dyffryn;
Ar y brigyn
Mae'r fwyalchen,
Tan gauadlen
Mae'r bigfelen
Iach chwibanol.

O, fyth-siriol, glyd friallen,
Lawn o gariad!
Brath yw'th oediad;
Harddaf blentyn,
Rhawd y flwyddyn,
Ar dy gorsen
Dyn eill ddarllen
Nefol freinlen
Adgyfodiad.

Ar dy fyd mae'r wawr, friallen;
Yn ddioedi
Cwyd i olchi
A'i gogoniant
Gwsg dy amrant;
Draw mae'r ddraenen
Gyda cholfen
Megys cromen
Berlog ganddi.

Boddi'th foncyff llwyd, friallen,
  Mae tlysineb
  Ac ardduneb;
  Nyth di-drallod
  Fydd ei gysgod;
  Oer, aniben,
  Ac aflawen
  Yw byd awen
  Heb dy wyneb.

Cwyd dy faner wen, friallen;
  Gorchfygedig
  A chloedig
  Yw y gelyn;
  Hedd yw testyn
  Cân Daearen,
  Chwardd fel meinwen
  Y fud elfen
  Ail-enedig.

---

## Y FRONGOCH.

Mor bêr! mor fwyn!
Aderyn cu, yw cerdd dy gwyn
O tan yr oer erwinol lwyn;
  Tylodi'r wig
A'i phrinder, ychwanegodd swyn
  Cainc fêl dy big.

Yn gado'r tân
Ac esmwyth seddau'r aelwyd lân,
A gwên a chwardd yn fawr a mân,
  Mae'r teulu llon,
I wrandaw ar doddedig gân
  Dy glwyfus fron.

Nid llai yn wir
Yw'th groesaw, er dy anghof hir
O honom yn y dyffryn clir,
A'i fôr o hedd;
Rhaid ydoedd troi dy hoen yn gur,
Er cael dy wedd.

O tyr'd i'r tŷ,—
Mae'r llawr yn nghlo, mae'r nen yn ddu,
Diddanus waith a fydd i ni
Gyflawni'th raid;
Mae yma hael galonau lu
Yn bur o'th blaid.

Mewn ofn na fydd,
Neb yma, Robin anwyl, sydd
A bwriad i dy wneyd yn brudd;
Pa'm 'rwyt mor syn?
Nid brâd er cloi dy aden rydd
Yw'r briwsion hyn.

Oferedd yw
I geisio'th ddenu, gerddor gwiw,
Gwell gennyt farw bron, na byw
O wydd dy ddol;
Parhau wna'th drwm hiraethlawn friw,
Nes myn'd yn ol.

---

## Y BETRISEN.

Betrisen anwyl cilia!
I ti a'th deulu tlws,
Am fangre arall chwilia;
Ynfydrwydd aros yma,
Mae'r heliwr ar y gamfa
Ger llaw dy wlithog ddrws.

Mae troi o'th gartref siriol
  I'th fynwes bur yn bwn;
Ond pwn mil mwy andwyol
I ti fa'i plwm angeuol,
Ffau ddu y fellten farwol
  Sydd acw yn y gŵn.

Tuag atat yn cyfeirio
  Mae'r ci â lledawl ffroen;
O! rheda i ymguddio
I rywle cyn dy rwygo!
Rhyw wledd o fwyniant iddo
  F'ai gwrandaw cri dy boen.

A'th gywion cu yn ebrwydd
  O'i rawd dinystriol dos;
Nid ydyw ei ddistawrwydd
Ond rhwyd i'th ddiniweidrwydd;
Mae mwy o garedigrwydd
  I ti yn mron y ffos.

Gwna frys! gwna frys! nac aros,
  Attolwg, yna mwy;
Mae'r gelyn dig yn agos
I berlau'th aelwyd ddiddos;
O! cefna rhag ymddangos
  Y fan gosodaist hwy.

Oferedd oedd ei galw,
  Diysgog tra bo chwyth,
O'i mewn y saif i gadw
Ei phlant o'r tywydd garw;
Os gorfydd iddi farw
  Gwna farw uwch ei nyth!

O! 'r ddewr betrisen ffyddlon,
Ei thynged, hyn a fu;
A lledawl edyn oerion
Fe'i cafwyd uwch ei chywion,
A chreulyd lif ei chalon
O'i hamgylch, oll yn ddu!

O lwyn gerllaw yn cwyno,
O fewn y dail yn gudd,
Yn yr unigedd yno,
Un galon sydd yn teimlo
Sŵn cri ei chur yn llifo
Wna lonnaf fron yn brudd.

Cuddiedig yw ei orwel
Gan welw darth y bedd:
Ei drydar lleddf ac isel
O'r gangen lonydd dawel
Eistedda yn yr awel,
Sydd yn dyheu am hedd.

Mae priod gu ei fynwes
Yn gorwedd yma'n fud;
Yn friw tan wadnau gormes
Ei nyth, ag oedd mor gynhes,
Sy'n wag o'i chywion drud.

Aderyn gweddw tirion,
Cyn hir y peidia'th gri;
Eheda o'r peryglon
I hafan dy anwylion;
Rhyw bwn a chroes yr awrhon
Yw bywyd oll i ti.

Na riddfan yma ragor,
Disgyna atynt hwy,
I'r fythol heddlawn oror
Nad yw ei phorth yn agor
I elyn, ci, na phylor
Na phlwm ni'th flina mwy.

## Y MWYALCH A'R FWYALCHEN.

YN ymyl y ddedwydd Fwyalchen
  Eisteddais i wrandaw ei chân;
Hawdd yno oedd teimlo yn llawen,
  Anghofiais fy hunan yn lân
Wrth ffrydiau ei melus orfoledd,
  O! 'r mwyniant oedd aros yn fud,
Yng nghanol y gloew dangnefedd!
  I wledda ar seiniau mor ddrud.

Y nawn oedd ddigwmwl a thawel;
  Y gorwel oedd wridog a mwyn;
Yn isel y clywid yr awel
  Yn sisial yn mynwes y llwyn;
Gerllaw y murmurai yr afon;
  Pob cilfach, pob llecyn oedd hardd;
Y darlun godidog oedd ddigon
  I yrru i lesmair y bardd.

Dros gof aeth pob gofal a phryder;
  O teimla y galon yn rhydd!
Ymnofiai, ymsuddai mewn pleser,
  Nis gallai fod yno yn brudd;
Mewn dylif o wawl 'r oedd y dolydd;
  Afonydd y dydd oedd uwchben;
Digrifwch, diddanwch, llawenydd,
  Arllwysai pob twmpath a phren.

Tlws iawn yw y gywrain gynghanedd
  Ar wefus dy emyn a chwardd;
Ond milwaith mwy tlws yw'r clodforedd
  O'i dyfnder tryloew a dardd;
O cana! O cana, Fwyalchen!
  Mae'th lais a dy odl mor gu,
Yn wir mae dy guddfa a'th gangen
  Yn anwyl ryfeddol i mi.

Na thawa, O wylaidd Fwyalchen ;
 Mae miwsig dy garol mor bêr !
Yn fuan machluda yr heulwen,
 Yn fuan daw allan y sêr ;
Na thawa, Fwyalchen, am ennyd,
 Dymunwn dy wrandaw o hyd ;
O ! swynol yw adlais dy wynfyd,
 Mae'th alaw yn ddiliau i gyd !

---

## Y BRONFRITH, Y MWYALCH, A'R ADERYN DU.

O ! HENFFYCH gilfach dawel,
  Ddistaw, glyd,
O'th fewn pêr furmur awel
  Dardd o hyd ;
Ym mlodau dy geulannau
Eisteddaf hwyr a borau,
Paradwys o bleserau
  Wyt i gyd.

Y mwyalch pêr ei awen,
  Mwyn ei gân,
A'r bronfrith hardd, a'i lawen
  Alaw lân,
Sydd ynot ; ysbrydoliaeth
Fyrlyma o'u cerddoriaeth,
O ! deued i'm barddoniaeth
  Beth o'r tân.

Aderyn du yn fuan
  Ddaeth i'r wig,
Eisteddodd lawr yn chwiban
  Ar ei brig ;
O ! ddedwydd gyfarfyddiad,
Cyd-driga'r tri mewn cariad,
A diwair gydymdeimlad—
  Neb yn ddig.

Cydganu a chydbyncio,
    Amser hir,
Yng ngwig y gilfach honno
    Fiwsig clir:
Bu'r tri uwch ben eu digon,
Yn deulu diymryson,
Mae yma, oes, i ddynion,
    Wers yn wir.

Eu gwrandaw oedd i'm dwyfron
    Drom yn wledd;
O! teimlwn yn hiraethlon
    Ado'm sedd
Belydrog a chysgodol,
O fewn y geulan siriol,
A min y ffrwd furmurol
    Lon ei gwedd.

Goglesiol wadnau deigryn,
    Mud a phrudd,
A deimlais lawr yn disgyn
    Dros fy ngrudd;
Dywedai mor anfoddlon
I gefnu oedd fy nghalon
A'th gerddi pur a'th geinion,
    Gilfach gudd.

Os rhaid am ennyd gefnu
    Arnat ti,
A chanu'n iach i'th dlysni
    Byw a'th fri,
Cyn hir mi wnaf ddychwelyd
I'th gôl, O! gilfach hyfryd!
Rhyw Eden ddifrycheulyd
    Wyt i mi

## I'R AWEL.

MAE i'r daran gref hyawdledd;
  Nerthol yw y fellten fud;
Mae i'r mynydd uchel fawredd;
  Mae i'r glyn arddunedd drud:
Mae i gorwynt cryg y gorwel
  Arucheledd yn ei dwrdd,
Ond mae'r oll ar dant yr awel
  Mewn gogoniant mwy yn cwrdd.

Daw hyawdledd o'i distawrwydd;
  Mae ei nerth heb farwol saeth;
Mawredd leinw'i gostyngeiddrwydd;
  Harddu'r glyn arddunol wnaeth
A'i harddunedd; braw a dychryn
  Ddwg y corwynt croch i'r fron;
Ond mwyn arucheledd telyn
  Ydyw peraidd adlais hon.

Neb ni flina ar ei murmur;
  Fyth yn anwyl yw ei hedd;
Rhydd i'r galon lwythog gysur,
  A goleua nos y wedd;
O mor fwyn yw swn ei hedyn
  Anweledig yn yr ardd;
O mor gu dan gangau'r dyffryn
  Yw i'r glust ei hisel chwardd.

Dan ei pheraidd anadliadau
  Tardd gorfoledd, llifa cân;
Nofio mae y dail a'r blodau;
  Chwyfio mae y borfa lân:
Ar yr esmwyth chwyddol donnau,
  Ddawnsient ar ei mynwes bur;
Tra mae'r gerdd a'i barddol ddiliau
  Yn amgylchu'r awyr glir.

O ! mor ysgafn oedd ei rhodiad
  Dros y perlog wlithog lawr,
Pan yr ydoedd bysedd cariad
  Yn goleuo porth y wawr;
Pan oleuai'r sêr eu pebyll,
  Wedi'r dydd ddiflannu'n llwyr,
Hwylia'n nwyfus ar ei hesgyll
  Ym mhorfforaidd wawl yr hwyr.

Cyn i'r bugail seinio'i bibell
  I ddihuno'r clogwyn pell;
Neu frefiadau ei ddeadell
  Ddenu adsain maes o'i chell,
Gweini 'r oedd fel mun gariadus
  Balm ei pheraroglaidd fyd;
Gwnaeth i lawer gwelw wefus
  Wenu'n llon a'i chusan clyd.

Nid y dail a'r blodau'n unig
  Fu yn yfed hoen ei hedd;
Nid y borfa eneiniedig
  Wyr yn unig am ei gwledd;
Llawer mynwes brudd, aniddan,
  Llawer llwyd gystuddiol fin,
A ddiodwyd yn ei chwpan
  A'i hadfywiol, nefol win.

Bu'r pysgotwr sydd yn gwylio
  Yn ei gorwg yn y brwyn;
Bu'r forwynig draw sy'n godro,
  Bu y llanc ynghŵr y llwyn,
Ynddo'n yfed; gŵyr y milwr
  Pan ar faes y gwaed mae'n flin,
Uwch y weilgi gŵyr y morwr
  Am ei anghydmarol rin.

Mae yr Haf a'i goryn melyn
  Wedi myned dros y don,
Ac hiraethlawn gri yn esgyn
  Am ei hawddgar wyneb llon;
Mae y wennol bron a chefnu;
  Mae y gog tudraw i'r lli;
I'n dedwyddu a'n diddanu,
  Awel anwyl, aros di.

---

## I'R GWLITHYN.

Prin ond disgyn
Wnaethost Wlithyn!
  Aros, beth yw'th frys?
Gorffwys ennyd
Cyn dychwelyd
  I'th belydrog lys.

A wna'r gwelltyn
Ofer erfyn
  Arnat, Wlithyn pur?
Mêl i'w gwpan,
Cain, f'ai cusan
  O dy wefus glir.

Mae y teithio
Wedi'th flino—
  Pell yw porth y Wawr,
Ac hardd dalaeth,
Nôd dy hiraeth;
  Orig eistedd lawr.

Gwrandaw weddi
Lân y lili
  Yn ei mantell hardd;
Yn dy ymyl
Clyw yn ymbil
  Rhosyn llonna'r ardd.

Ebai'r Gwlithyn—
"Ofer gofyn :
Pan yn dod o'm gwlad,—
Archwyd i mi
Beidio oedi,
Gan fy serchog dad.

Teimlaf dremiad
Byw ei lygad,
Yn gwefreiddio'm bron ;
Mae fy ngwynfyd
A fy mywyd,
Yn ei wenau llon.

Byr yw'm hanes ;
Un ar neges
Ydwyf, Lili dlos ;
I ddiodi
Ac i nerthu
Daethum, serchog Ros.

Welltyn, dywed,
Ddaeth i'th syched
Drwy fy nyfod, drai ?
Dywed hefyd,
Yw dy wendid,
A dy nych yn llai ?

Pe aroswn,
Mwy ni fedrwn
Wneyd i ti na hyn ;
Trwsio'th goryn
Wna'r pelydryn,
Ar ei edyn gwyn.

Allwedd harddwch
A phrydferthwch
Roddwyd iddo ef ;

Wrth ei wregys
Berlog, daclus,
Mae holl liwiau'r nef.

Ffarwel i chwi,
Ros a Lili,
Pan fo'n wâg fy sedd,
Bydd fy enw
A fy nelw
Ar eich diwair wedd.

Pan fo'ch pennau,
Serchog flodau,—
Pan fo'ch bronnau, ddail,
Dan gain lenni
Nefol dlysni,
Cofiwch saer ei sail.

Murmur isel
Pêr fy angel,
Mîn yr awel rydd;
Llais anwylaf
Eilw arnaf
I balasau'r dydd.

Yr un cerbyd
Esmwyth, hyfryd,—
Yr un gannaid Law;
Nawdd a chuddfa
Fy nisgynfa,
I fy nghyrchu ddaw.

---

## Y WENYNEN.

Goleuni olaf seren
A olchai'r wlithog gangen,
Oedd uwch cain do, yn nawdd i dŷ
Y brydferth, gu Wenynen.

A bron a llygad llawen,
Yn trin ei llednais aden,
  Ar fin ei drws, dan len o rôs,
Eisteddai'r dlos Wenynen.

Yn trwsio'i thalaith felen
Y bu y bêr friallen,
  Ar sedd o fwswg teg gerllaw,
I'r ffordd y daw'r Wenynen.

Cyn hir y serchog wybren
Ddihuna grwth dy awen,
  Cyn hir yn llanw'r ardd bydd swyn
Dy furmur mwyn, Wenynen.

Cib fêl yw pob meillionen,
Mae diliau ar bob dalen,
  Mae yma nectar pur yn fôr
I'th fwrdd a'th stôr, Wenynen.

Tra mae yn hâf a heulwen,
Ar gyfer dydd o angen,
  Darparwn heddlawn gell ddiwall,
Fel gwna y gall Wenynen.

---

## LLYGAD Y DYDD.

Bardd eisteddai ar y gamfa
  A myfyriol welw rudd,
Yn ei ymyl yn y borfa
  Gwelai Lygad llon y Dydd.

Synnai fod fath blentyn siriol
  Wedi dod o'r llwydaidd bridd,
Tra yn gwenu yn dosturiol
  Gwelid Llygad tlws y Dydd.

Syllai ar ei welw amrant,
A'r deniadol wawl a'i cudd;
Tra yn chwyfio'i ben mewn mwyniant
Gwelid Llygad mwyn y Dydd.

Gwefru 'r oedd ei llednais gorsen
Anadliadau'r awel rydd,
Nes y dawnsia gwlithyn llawen
Mynwes Llygad hoff y Dydd.

Yn pelydru ar ei ddalen
Rhyw arddunedd nefol sydd;
O mae harddwch ddena Awen
Ynot, Lygad eurliw'r Dydd!

Os yn faich yr aeth dy ddiliau
Yn foddlongar ennyd bydd,
Y wenynen sugna'th fronnau,
Anwyl Lygad gloew'r Dydd.

Hoffai'r bardd i wneyd ei ddarlun,
Ond y pwyntil ymaith rydd;
Gormod oedd i bill nac englyn,
Geinder Llygad teg y Dydd.

---

## FFRWD Y PISTYLL.

DAN y chwyfiol
Goed cysgodol,
Gwledd oedd sefyll
Wrth siaradus,
Fythol felus
Ffrwd y pistyll.

Gwylaidd ofyn
Mae wrth ddisgyn
  Am fy mhennill,
Ac edrychiad
Llawn o gariad
  Ffrwd y pistyll.

Mae y galon
Brudd, hiraethlon,
  Ar ei hennill;
Elw eistedd
Yn hyawdledd
  Ffrwd y pistyll.

Yma'n llawen
Cwyd yr Awen
  Ar ei hesgyll;
Try ei thrymder
Yn ysgafnder
  Ffrwd y pistyll

Feinwen serchog
Dos a'th gynnog
  Lân ei hestyll,
Yn dy alw
Y mae gloew
  Ffrwd y pistyll.

Swyn ei dangnef
Blant y pentref
  Llon, wna gynnull;
Tlws yw blodau
Heirdd geulannau
  Ffrwd y pistyll.

Son mae'r adar
Yn eu hawddgar
  Ddeiliog bebyll,
Yn eu cathlau,
Am bêr ddafnau
  Ffrwd y pistyll.

Gwnaf eich llenwi
Y mae i mi
Fôr yn weddill;
Ddaw o acen
Groew, lawen,
Ffrwd y pistyll.

---

## BYWYD.

*(Y Garreg).*

Y GARREG ddiaddurn yn ymyl fy nhroed,
A'i gwyneb difrifol yn rhuchiog gan oed,
Sy'n llifo gan fywyd—ïe, dros yr ymylon,
Clust deneu y Pur glyw guriad ei chalon;
Er fod pwn o flynyddoedd aneirif ac oesau
Yn gorwedd yn drwm ar ei moelion ysgwyddau;
Ie, bywyd yw'r wregys a'r rhwymyn mor glyd,
A geidw ei myrddiwn ronynnau ynghyd;
Os ydyw yn llonydd, yn fud, a digyffro,
Heb law i geryddu yr hwn a'i tarawo,
I'th olwg, fy nghyfaill, yng nwylltedd y traeth,
Mae'n fyw o ddoethineb 'r ewyllys a'i gwnaeth;
Os ydyw yn ddrylliog a charpiog ei chefn,
Y mae yn gyfoethog o gynllun a threfn;
Ar waelod y raddfa, o ddyfnder ei rhawd,
Geill gyfarch yr huan, a'i alw "Fy mrawd;"
Wrth y seren serchocaf, brydferthaf, ar gaer
Y nos y geill sibrwd, heb gerydd, "Fy chwaer;"
I lygad ei hawdwr mor gu yw ei grudd,
A grudd heddlawn Gwener ar drothwy y dydd;
Yr un llaw anfeidrol ei mwswg fu'n gwau,
Wnaeth dalaith o loew leuadau i Iau;
Pe gallem ond darllen ei phennod i gyd,
Ei phennod gyfriniol ryfeddol ei hyd,
Pwy ŵyr na chaem allan cyn gorffen, mai sail
Ydyw hon i gyfandir byd newydd, neu haul;
Pwy ŵyr nad yw'r corwynt chwareuol ei fryd,

Fu'n canu am oesoedd ar erchwyn ei chryd,
I'r ddiadell o donnau a wynnant y traeth;
Neu i'r geulan sy'n gwenu fan acw i ddenu
Rhai hyn i ogofäau ei chorlan o greigiau,
A'u mawrion drwmlwythog, bistyllog gaderau,
Yn cwyno am rywun i dderbyn eu llaeth;
Am rywun i'w godro, i'w godro, i'w godro;
Na, oerllyd law rhywun a'u gyrrent ar ffo,
Nid oes ond llaw bugail cyfarwydd wna'r tro;
Eu cwrdd ni chaiff neb ond y bysedd a'u gwnaeth;
Pwy ŵyr nad yw'r corwynt yn gwybod yr oll,
O fywgraffiad a thynged y garreg heb goll;
Anoeth yw ei holi, mae yr hanes yn faith,
Dieithriol yw'r arddull, estronol yw'r iaith;
Yng ngwyll y llythyren yn ddwfn wedi'i gloi
Mae heddyw y meddwl, ond mae'r olwyn i droi;
Cyn hir bydd y meddwl yn dawnsio yn rhydd,
Yn fil myrdd mwy gloew nag afon y dydd;
Ni raid mwy wrth iaith, er ei ddangos, na llûn,
Nac hefyd esboniad, dehongla ei hun.

---

## FY LLYNGES O BLU.

Yr amser yr oeddwn yn blentyn,
  A'm bron o ddedwyddwch yn llawn,
I geulan yr afon gwnawn ddisgyn
  Yn llawen i dreulio'r prydnawn;
Yr haul yn y cwmwl a chwarddai,
  A gwenai yn foddus y lli,
Wrth weled fy mhryder a'm hofnau
Diniwaid, tra plygwn fy ngliniau
  I drefnu fy llynges o blu.

Ei gwylio wnawn yno yn serchog,
Na ddeuai neb arall i'w chwrdd;
Ar fynwes y llanw pelydrog
Fe'i gwelais yn myned i ffwrdd,
A'i benyr eurliwiog yn chwyfio;
Ond diwedd yr helynt a fu,
Ei gweled yn cael ei dinystrio,—
Wrth bentan y bont y gwnai suddo
Mewn trobwll, fy llynges o blu.

Gwers yno a ddysgodd fy nghalon,
A'm cadwodd, do ganwaith, rhag briw,—
Yng nghanol rhyw lu o beryglon,
Hon gofiaf tra fyddaf yn fyw!
Pan fyddo rhyw bleser yn curo
I gynnyg ei fwyniant i mi,
Er ceisio fy maglu a'm rhwydo,
Daw nerth i wrthsefyll, wrth gofio
Am dynged fy llynges o blu.

Pan fyddo rhyw syched angerddol
Am fawredd yn llanw fy mryd;
Pan tybiaf fod llif y dyfodol
Yn dangnef a chysur i gyd;
Fod drwy y tywyllwch a'i cuddia
Ffordd heulog ddigwmwl i fri;
Rhyw lais o fy mewn a sisiala
Ag acen garedig! O cofia!
Ystyria! dy lynges o blu.

Gadewch i'r ieuenctid i chwareu,
Ni ddeillia'r un niwed o hyn;
Os cedwch rhag plentyn deganau,
Ei feddwl yn fuan, fel llyn
Dry'n llonydd, i'w burdeb daw llygredd,
A leinw'r dyfodol a chri;
Byw heddyw y mae yr hyawdledd,
Gynt brofodd fy nhalon wrth eistedd
Ger beddrod fy llynges o blu.

Gan degan dihunwyd gorfoledd
  Wna'm canlyn yn ffyddlon o hyd,
O'r prudd-der daeth allan gynghanedd
  Wefreiddia fy enaid i gyd;
Fe'm dysgwyd geill boreu o wynder
  Droi'n nawn fo'n dymhestlog a du;
Geill fod o dan degwch o llyfnder,
Gryd gloaidd, ystorm yn eu dyfnder,
  Yn suddiad fy llynges o blu.

Fe'm dysgwyd i edrych i fyny
  O'r ddaear, i chwilio am hedd,
I'r byd o ddedwyddwch sy'n gwenu
  Tu draw i gymylau y bedd;
Yn murmur drwy furmur yr afon,
  Gwnai'r afon o fywyd sydd fry!
Ar honno yr hwylia fy nghalon,
Ei llynges o loew obeithion,
  Fel gwnai ar y cyntaf ei phlu.

Ger hon ni raid imi bryderu
  Am bentan cyfyngol a phrudd,
I wneud i'r llifeiriant derfysgu
  Am drobwll i gafnu ei rudd;
I glywed y Dwyfol mewn anian
  Afreidiol, fy nghyfaill, i ti
I ddringo esgynlawr y daran,
Yn ymyl dy droed mae'n ymddiddan
  Mewn pennod arddunol o blu.

---

## YR ELYRCH.

Tardda yr afonig hon ryw bedair milldir i'r gogledd o Rymni, yn agos i'r Pyllau Duon a Chraig y Milwyr, Sir Frycheiniog. Gerllaw ei tharddell, dysgir ni gan draddodiad fod brwydrau gwaedlyd iawn wedi cymeryd lle yn yr hen amser rhwng tywysogion Gwent a Morganwg. Cyfansoddwyd y llinellau hyn pan ar ymweliad â glannau yr afonig uchod.

Ar lan freuddwydiol Elyrch
  (Borfforwyd gan y cledd
Mewn llawer creulawn ymgyrch),
  Teyrnasa heddyw hedd;
Lle cyrchai yr eryrod
  A bleiddiaid gwncus gynt,
A wnaed gan golomennod
A defaid yn breswylfod
  Ar lawer hafaidd hynt.

Newidiwyd corn y rhyfel,
  A'r frwd filwrol gân,
Am delyn fwyn yr awel,
  A cherdd yr afon lân;
Yn pydru mae y bwa,
  Yn rhydu mae y saeth,
Lle bu y bedd yn gwledda;
Mun brydferth weithiau gana
  O dan ei chynog laeth.

Y llechwedd fu yn dorchi
  Y cadfarch dig â'i garn,
Lle hefyd bu yn mathru
  Olwynion gwaedlyd barn;
Y fuwch yn awr a'i pora,
  Ac arni'r eidion blin,
Mewn tangnef a orwedda,
A'r chwarddol wlithog borfa
  Ddeniadol wrth ei fin.

Y graig lle bu y gigfran
  Yn eistedd lawr yn hir,
Uwchben y drom gyflafan
  Bryd hwnnw guddiai'r tir,
Hon welodd rannu'r ysbail,
  Gyferbyn ar y bryn;
Ond heddyw pîb y bugail
A glywir yn ei chesail,
  Nes yw'n adseinio'r glyn.

Min haf, O Elyrch siriol!
  Arddunol yw dy glôg;
Cusanu'th foch mae'r wennol,
  Gogleisio'th glust mae'r gog;
Mae carol ar bob cangen,
  Mae anthem ym mhob llwyn;
Y pêr uchedydd llawen
Wnaeth gartref clyd i'w awen
  A'i gywion yn dy frwyn.

Y brithyll a chwareua
  Yn dy dryloew fron,
Y bwrlwm aur a nofia
  Ar dy belydrog don;
Yn foesgar plyga'r helyg
  Uwch dy risialaidd wedd;
Wrth ddilyn hyfryd fiwsig
Dy geulan gysegredig
  Y cefais lawer gwledd.

Cyn hir y daw y gauaf
  O'i oer, begynol fyd,
I'th rwymo, ffrwd anwylaf,
  O fewn dy wely clyd;
Ni ddigwydd i ti niwed,
  Er lles i ti fe'i rhoed,—
Ffrwyth cariad yw'r caethiwed;
Y Gwanwyn gaiff dy weled
  Yn harddach nag erioed.

Ond, O, na ddeued rhyfel!
  I'th gywilyddio mwy;
Na gwaed i wrido'th awel
  Ddihalog, iach, ddiglwy';
Na ddeued mwy fyddinoedd
  I frwydro ger dy li;
Boed byth i ddeadelloedd
I wynnu y mynyddoedd
  A'th amgylchynant di.

Os haf a welaf eto,
  O bydd yn felus iawn
I ddod i'th lys i dreulio
  Diddanus hir brydnawn,
I yfed o dy harddwch,
  Nes llwyr anghofio'm cur
Cafodydd o ddedwyddwch
Ddyhidlant o'th hawddgarwch,
  O deg afonig bur!

Boed yno pan ddychwelaf
  Dy holl faneri'n grog,—
Boed yno pan y deuaf
  Felusion nodau'r gôg;
Boed yno'r serchog wennol
  Yn trydar uwch dy li,
A nodau cynghaneddol
Y fronfraith wylaidd siriol,
  Cael hyn fai'n hedd i mi.

Rhwng digllon, eirwon feini,
  Dy fwswg teg ei liw
Yn dyner wnaeth dy noddi
  Rhag derbyn llawer briw;
Pan gwyd i fyny gyndyn
  Afrywiog ar ein rhawd,
Mewn cariad hyd ei goryn
Amgauwn ef, a'r gelyn
  A dry i ni yn frawd.

Os croesau gyfarfyddwn,
  Ni ddeillia lles o gwyn,—
Fel ti, o danynt canwn,
  Ac hawddach fydd eu dwyn;
Oferedd fydd ymryson
  A'r rhwystrau ddaw i'n cwrdd;
Gwell i ni fod yn dirion,
Eu goglais â murmuron
  Fel ti, a mynd i ffwrdd.

## MAE LLE EI BOD YN WAETH.

Os prin yw'r gell, a'r bwrdd yn llwyd,
  Os yw yr arlwy'n wael,
Mae llu i'w cael mewn eisiau bwyd,
  Heb geiniog goch i'w gael;
I'th grystyn caled sych,
  Hyn esyd fwy o faeth,—
Er saled yw ei ddrych,
O ddweyd, daw gwin a'i gwlych,
  Mae lle ei bod yn waeth.

Os plentyn afiach, feichia'th rawd,
  Fam ieuanc! dichon gall
Rhoi tro i fwth y weddw dlawd,
  I'r hon mae baban dall,
Ostegu llawer ton,
  I leddfu llawer saeth;
Lliniaru poen dy fron
Wna cofio'r llinell hon,—
  Mae lle ei bod yn waeth.

BIBLIOTHECA·BODLEIANA

Os trwm, fy mrawd, yw baich y dydd,
  Daw nos cyn hir i'w gloi,—
Dy aros draw, mae aelwyd rydd,
  A gwely clyd i droi;
Mewn cadwen fil mwy tyn
  Na thi—mae myrdd yn gaeth;
Darostwng llawer bryn
Wna credu'r geiriau hyn,—
  Mae lle ei bod yn waeth.

Os eira Amser wyna'th wedd,
  Mae gennyt gartref gwiw,—
Os yw dy briod yn y bedd,
  Mae'r plant i gyd yn fyw;

Mae gwynach gwyneb, gwn,
  Mewn caban ar y traeth,
Dan drymach, garwach pwn;
Hawdd dweyd o weled hwn,
  Mae lle ei bod yn waeth.

Os gwgu arnat wna y byd,
  Os aed a'th aur i ffwrdd;
Mae grym dy fraich yr un o hyd,
  Mae'th iechyd heb ei gwrdd;
Na ffroma rhag mai Duw,
  O'i gariad, hyn a wnaeth,
Er mwyn dy gadw'n fyw;
Ei ganmol gweddus yw,—
  Fod lle ei bod yn waeth.

Os yw pelydrog lanw clod
  I'th erbyn wedi troi,
Os ydyw seren dêr dy nod,
  Dew gaddug, heddyw'n troi;
O'r trai i fin y lli
  I gannu'r gwyll y daeth
Glaer seren uwch ei bri,
Ei gwaith a'th ddysga di
  Fod lle ei bod yn waeth.

Pob storm a wna dy gwrdd
  Ar lwybrau troellog oes,
Distawach fydd y twrdd,
  Ysgafnach fydd y loes;
Llai miniog fydd y cur,
  Mwy pwl fydd llafn yr aeth;
Os medri ddweyd yn wir,
Mewn acen ffyddiog glir,—
  Mae lle ei bod yn waeth.

## I'R GOEDWIG YN FOREU AETH EDITH.

I'R goedwig yn foreu aeth Edith,
  Yn hoew ac ysgafn ei cham;
Yn wresog ei chalon gan fendith,
  A chusan dihalog ei mam;
Dedwyddwch oleuai ei gwyneb,
  Sirioldeb belydrai ei min;
Gwyleidd-der, lledneisrwydd, a phurdeb,
  A welid yn llygad y fun.

Y dillad y feinwen a wisgai
  Oe'nt syml, diaddurn, a glân,
Mor bêr a'r uchedydd byrlymai
  I fyny o'r dyffryn ei chân;
Drwy'r glaswellt y rhedai fel ewig,
  A'i gwallt hir sidanog yn rhydd,—
O! hardd oedd ei dlysni euredig
  Yn llanw tryloew y dydd!

I gasglu ychydig o danwydd
  O'i chartref mor foreu y daeth,—
Ond clywodd y Fronfraith, ac ebrwydd
  Anghofio ei neges a wnaeth;
Melusder a dwysder yr acen
  Enillodd ei sylw yn llwyr—
Mor llwyr, nes anghofio'r wialen
  Wnai aros ei throsedd yr hwyr.

Rhy ddrud yw y pleser bwrcasir
  Drwy fathru dyledswydd i lawr;
Yn gur try y mwyniant enillir
  Drwy offrwm ac aberth mor fawr;
Ar bren gwaharddedig yn tyfu
  Mae'r nwyfus ddigrifwch a'r hoen,—
Os byddant o'n cael a'u meddiannu,
  I arall yn ddolur a phoen.

Gobennydd tymhestlog o ddagrau
  Hyn ddygodd i Edith ddinam,—
Daeth iddi ryw chwerwon deimladau
  Drwy dorri gorchymyn ei mam;
Daionus ryfeddol fu'r cerydd,
  Daeth nefol gynhauaf o'r loes,—
O'i dagrau y cododd Arweinydd
  A Chyfaill ffyddlonaf ei hoes.

Y fedwen garedig a'r cyngor
  Ddyferwyd gan Gariad i'w briw,
I filoedd cyn yma fu'n angor,
  Drwy ystormydd a'u dygodd yn fyw;
Gwialen, tynerwch, a gweddi,
  Pan unir eu nerthoedd ynghyd,
A feddant ar ddigon o allu
  I symud cyfandir neu fyd.

Arfaethwyd cylch santaiddd yr aelwyd
  Yn drigfa llawenydd a hedd,
Man anwyl ein cartref a drefnwyd
  Yn fangre gorfoledd a gwledd;
Gwyn fyd a gaiff aelwyd grefyddol,
  A chartref diddanus, di-dòn;
Mae aden yr Ysbryd Anfeidrol
  Yn do ac yn gysgod i hon.

---

## YN LLAW EI DAD 'R OEDD ALUN BACH.

Yn llaw ei dad 'r oedd Alun bach
  Yn rhodio yn y glyn;
Prydferthwch gwrid y meusydd iach
  A yrrai'r llanc yn syn!

Hawddgaraf flagur wisgai'r coed
  Ganfyddai ar bob tu;
Y blodau chwarddent wrth ei droed,
  Yn hardd chwareuol lu.

Dros ael y bryn y gwelai'r haul
  Yn gwenu yn y nef;
A gwelai hefyd fyrdd o ddail
  Yn gwenu arno ef.

Efe a'i gwelai ar y ddol
  Yn taenu llen o aur;
Rhy lawn o wynfyd oedd ei gol,
  I'w enau ynghan gair.

Cyn hir daeth deigryn gloew, mawr,
  Yn ddistaw dros ei rudd,
Goleuni ei ddihalog wawr
  Ei dafod wnaeth yn rhydd.

Cyfodai ei olygon pur
  Yn llawn o wir fwynhad,
I dangnef gwyneb serchog, clir,
  Ei gu, gariadus dad.

Gofynai gyda goslef ddwys,
  "Oes Tad, fy nhad, i'r dail?
I'r blodau heirdd? i'r borfa lwys?
  Oes Tad, fy nhad, i'r haul?"

"O oes, fy machgen anwyl, oes!
  Mae Tad, i'r oll, a Llyw,
Yr Hwn i'r oll fodolaeth roes,
  Fy mhlentyn, ydyw Duw!"

"Fy nhad! paham nas gwelaf Ef?
  Pa le y mae yn gudd?
Tryloew yw cymylau'r nef,
  Heb ynddynt ddim ond dydd!"

"O! Ysbryd anweledig yw,
  Heb debyg iddo'n bod;
Am dano'n son mae'r boreu byw,
  A'r hwyr adseinia'i glod.

Mae'n llanw'r ddaear faith i gyd,
Mae'n llanw'r wybren fry;
A nod Ei sylw wyt o hyd,
Efe a'th genfydd di!

O'i fron gyfoethog, gudd, mae'n doa
Bob cysur a phob hedd;
Mae nawdd a chysgod yn Ei law,
Mae bywyd yn Ei wedd.

Efe â'i Ddwyfol gannaid fys
Bob boreu eilw'r wawr;
A ffyddlon, ufudd was Ei wŷs
Yw'r huan melyn mawr.

I ddenu calon gyndyn dyn
I'w garu oll a wna;
Yn Dad i ti y rhydd Ei Hun,
Os byddi'n fachgen da.

---

## Y BWTHYN TLAWD.

Yn unig, ar y geulan,
Y saif y bwthyn gwyw,
Mwy unig ar y geulan
Yw'r hwn sydd ynddo'n byw;
Ei dad, ei fam, ei briod,
Ei blant, dwy chwaer, dau frawd,
Orweddant yn y beddrod!
Aeth llawer ton o drallod
Dros ben y bwthyn tlawd.

Agenog yw ei furiau,
Drylliedig yw ei do,—
Ei greithiog ddrws ddywedai
Fod iddo unwaith glo;

Y simnai yn ysgyrion
  Er's llawer blwyddyn wnawd,—
Yn eistedd ger yr afon
Yn glafäidd ben a chalon
  Y mae y bwthyn tlawd.

Llaw angeu ddygodd anrhefn,
  Tymhestlog arno fu,
Yn darian gwnaed y dodrefn
  Rhag saethau'r newyn du ;
Mae'r hwn o'i fewn a breswyl
  Yn llon, a'r oll ni awd,
Arbedol yw ei Feibl,
A'i spectol gu ac anwyl,—
  Dau em y bwthyn tlawd.

Os cefnodd ei gyfeillion,
  Os gwgodd arno'r byd,
Yn aros iddo'n ffyddlon
  Mae'r ddau beth hyn o hyd ;
O, llawer cyfarfyddiad
  Na fyth anghofir gawd
Gan fron y llwm amddifad,
A'i holl-gyfoethog Geidwad
  O fewn y bwthyn tlawd.

Os medda ar ofidiau,
  Am danynt neb ni ŵyr,—
Ef gana yn y boreu,
  Ef gana yn yr hwyr ;
Ei ddwr a dŷn o'r afon,
  O'r plwyf y daw ei flawd,—
Mae'n brin, ond mae yn ddigon
I lanw holl anghenion
  Y bwthyn prudd tylawd.

O'r trothwy gwel y ddinas,
  O'r trothwy gwel y dref,—

Ond croes i drefniant urddas
  I neb ei weled ef,
Yr hwn y mae'n anrhydedd
  Gan angel ado'i rawd,
Gael rhan o'i stol i eistedd,—
Gwel ef etifedd gorsedd
  O fewn y bwthyn tlawd.

Bydd ddistaw, adyn! edrych
  Mor deneu yw ei wedd,—
Ai tybed nad yw'n wrthrych
  A eilw am dy hedd?
Dy finiog sèn a'th ddirmyg
  A losgir i dy gnawd!
Mae'th eiriau'n gyfrifedig
Gan Dad y gorthrymedig
  Draw yn y bwthyn tlawd.

Dal buwch y plwyf i'w godro
  Wnaeth deddf pan methai parch,
Gwell ganddi hi f'ai cornio
  Pridd, ddwylath, ar ei arch;
Os yw ei wisg yn garpiog,
  Bydd gynnil ar dy wawd,—
O galon anrhugarog,
Pendefig yw'th gymydog,
  Er byw mewn bwthyn tlawd.

Mae'r llu fu'n cydastudio
  Ag ef, mewn llawnder clyd;
O'i olwg wedi dringo,
  Tra ef dan draed y byd;
Ond gwrol yw ei galon,
  Ym mlaen y mae ei ffawd,
Mae teyrnas ddrud a choron
Ynghadw fry! i wron
  Y bwthyn gwag tylawd.

## SWN Y GAFOD.

YMA'N ddedwydd yn fy nghysgod
  Diddan, diddos, dan y cangau;
  O'r dihalog, bêr feddyliau
Nwyfus, ddeffry swn y gafod!

Pan y byddo wedi darfod
  Dwrf y dydd o'r glust flinderus,
  Yn fy ngwely clyd, O melus
Ar y tô yw swn y gafod.

Hawdd angori mewn myfyrdod
  Yr aflonydd grwydrol awen;
  Y mae swyn a hoelia'i haden
Yng nghyfriniol swn y gafod.

Llawer cywrain, dlws gyweirnod,
  Llawer pennill wrth y pared
  Ar y mud obennydd aned,
Tra yn gwrandaw swn y gafod.

Daw'r Gorffennol i'm cyfarfod
  Mewn claer ddylif o oleuni,
  Yn ei glir gynwynol dlysni,
Wrth i'm yfed swn y gafod.

Pan fo'r galon oll yn drallod,
  Yn dyheu am gydnaws brudd-der,
  Fel y diliau ydyw'r dwyster
Mwyn a dardd o swyn y gafod.

Dwyn o'm mewn yr oll i gymod,
  Wna y dòn o brofiad hyfryd
  A wefreiddia drwy fy ysbryd,
O heddychol swn y gafod.

Eto, mae i'r pleser amod,
  Rhaid yw gyda distaw loches,
  Effro glust, ac effro fynwes,
I roi swyn i swn y gafod.

Y mae cudd, rybuddiol bennod
  Gloew Feibl arall Cariad,
  Yn nyfnderau'r fron yn siarad
Drwy ddifrifol swn y gafod.

Geilw arnaf fod yn barod,
  Ac i ddarpar man i lechu,
  Fod byd arall yn dynesu,
A mil trymach, dwysach cafod.

O mor ddedwydd fydd preswylfod
  Lonydd dawel, craig i'm cuddio,
  Y pryd hynny, Arglwydd, dyro,
Yn nharanau'r olaf gafod.

Hapus ddyn! a wnaeth adnabod
  Iesu'n Geidwad ac yn Noddfa,
  Hwn o fewn ei Dwr a gana,
Ac a chwardd yn swn y gafod.

---

## PAM? O! PAM YR WYF YN BRUDD?

Llon yw'r awel ar ei haden,
  Gwenu mae yr huan têr,—
Gorfoleddu mae pob cangen,
  Mawl a dardd o'r meusydd pêr;
Llamu a dawnsio mae'r pelydrau
  Lawr hyd lethrau perl y dydd,—
Pam nas gallaf fod fel hwythau?
  Pam? O! pam yr wyf yn brudd?

Yr uchedydd leinw'r wybren
  A thangnefedd pur ei fron,
Acen felus y fwyalchen
  O mor swynol ydyw hon;
Mwyniant welir ym mhob llygad,
  A sirioldeb ar bob grudd,
Dros bob gwefus llifa cariad,
  Pam? O! pam yr wyf yn brudd?

Llanw'r gilfach mae digrifwch,
  Tlysni ynddi wnaeth ei sedd,—
Toi pob llechwedd mae hyfrydwch,
  Gwisgo'r oll mae hoen a hedd;
Boddus ganu mae'r afonig,
  Chwerthin mae y gornant gudd,
Chwardd ddihalog lawn o fiwsig,—
  Pam? O! pam yr wyf yn brudd?

Ymddifyru mae y ffynnon
  Yn yr helyg ar ei glan;
Serchog yw y blodau tlysion
  Wnaf gyfarfod ym mhob man,
O mor ddiddan yw yr ednod!
  Acw'n trydar ar y gwŷdd,
Nid oes yno neb mewn trallod,
  Pam? O! pam y byddaf brudd?

Os rhy uchel yw barddoniaeth
  Gywrain odlog, Anian wiw,—
Os rhy nefol yw'r gerddoriaeth
  Gyfrin, gynghaneddodd Duw;
Mae Efe o'i ras yn foddlon
  I fy awen fod yn rhydd,
I edmygu'r ddwy a'u ceinion,
  Pam? O! pam y byddaf brudd?

Y mae dringion drwy y ceinder,
  Y mae ysgol ar y traeth,
Lle'r ymdorra tonnau pleser,
  At y Dwyfol Fod a'u gwnaeth ;
Ti ffynhonell holl orfoledd,
  Dôl a mynydd i mi bydd,
Yn Ffynonell fy nhangnefedd,
  Hyn dry'n llon fy nghalon brudd.

---

## BYWYD! (eto).

Ei acen a glywaf,
  Ei deimlo a wnaf,—
Ffordd bynnag y troaf
  Lle bynnag yr âf,
Ei ymchwydd tryloew,
  A'i lanw mor dêr,
I'm golwg sy'n galw—
Y serchog blanedau,
Lleuadau, claer heuliau ;
Yn nofio ei donnau
Fyth dawel, fyth olau,
Mae gogoniant y nefoedd,
A'i chyfoeth o fydoedd ;
O'i ddylif o geinder
Dihalog, daw gwynder
Pelydrog y lleufer,
  Fodrwya y sêr.
Neu os y cyfeiriaf
  Fy llygad i lawr,
Efe a ganfyddaf
  Yn tywys y wawr,—
A'i dyner law euraidd,
  Ac yn arwain y dydd,
I'r Llewin porfforaidd
  I'w ollwng yn rhydd.

Yn gyrru yn enbyd,
Canfyddir ei gerbyd,
A'i olwynion têr-wynion
Dros y fflamllyd gyhydedd,
  Digwmwl a chlir;
Lle gwelir mewn alaeth
Ysgubion dynoliaeth,
Ddrylliedig a darniog,
  Yn duo y tir.

Os fry tua'r gogledd
  Aniddan edrychwn,
Ar furiau drylliedig
  Hen garchar y Pegwn,
Yn gorwedd mae gwyll
  Ar ei feini yn dew;
O'i fewn mewn unigrwydd,
  Yn eithaf diofal,
Yn mynwes distawrwydd,
  Mae llawer ton hoew;—
Ysgafndroed a gloew
Rianod y Werydd,
A bri y Mor Tawel,
Fyth heulog ei orwel,
Yn llusgo'u cadwynau,
  A'u cloion o risial,
Neu yn curo eu bronnau
Yng ngheulawg ddyfnderau,
  Eu celloedd o rew;
Lle nad oes i'w ganfod,
Ond eirth a morfilod,
  Ac ambell aderyn
Dihedd a digysgod,
Fel meudwy neu grwydryn,
A yrwyd gan ddryc-hin
O blith ei gydnabod.

Ym mhell, bell, o dangnef
Di-gwmwl ei gartref,
A dedwydd gymdeithas
Ei ryw—heb berthynas,
I glywed acenion
Hiraethlon ei galon
Ar hyd y clogwyni;
Na llygad i sylwi
Ar fawredd ei drallod,
Er llymed ei breswyl,
Heb frigyn na changen
I'w gweled yn unman,
Er iddo orffwyso
Am enyd ei aden;
Er oered yw arno,
Er fod ei glaer asgell
Yn gorwedd fel tafell
O rew wrth ei ystlys,
Ni pheidia a chwynfan.—
O! y mae bywyd yn felus!
O! y mae bywyd yn anwyl!

Ffordd bynnag yr âf,
Ai i lawr, ai i fyny—
Tua chartref yr hâf,
Bro gain y balmwydden,
Neu'r dolydd byth-wyrddion,
Cysgodawl a thawel,
Paradwys belydrog
Yr awen a'r awel;
Lle gwena'r winwydden
Garedig ei mynwes,
A'i breichiau ar dorri
Wrth gynnal i fyny
Ei heulawg gadwynau,
A'i phlethion tryloewon;
Cyfoethog gynyrchion

Ei bron ddifrycheulyd,
A ddygwyd yn ddistaw
I fyny yn nwylaw
Dihalog yr Ysbryd,
Sydd fythol yn symud
Yn eigion dieithriol
Aflonydd y nwyau;
Neu a nofia yn siriol
A dedwydd ar donnau
Y gwlith a'r pelydrau.

Os draw i'r anialwch
  Y cyfeiriaf fy nhroed,
Na thorrodd ei heddwch
  Lais dynol erioed,—
Lle mae'r oll yn dangnefedd
  A bythol ddistawrwydd;
Lle mae carol gwareiddiad,
  Ei digter a'i chariad,—
A byrdwn ei mawredd
  Yn gerdd anghyfarwydd;
Lle mae'r goedwig yn eistedd
  A breichiau plethedig,
Yn moli arddunedd
A bywiol hyawdledd
  Yr wybren garedig;
Ym mhob man drwy'r cyfan
  Yn llifo yn hyfryd
Mae murmurol afonydd,
  Gweithgarwch a bywyd.

Os troaf i'r ddinas,
  Yn y llawnion ystrydoedd
Daw yn ebrwydd i'm cwrdd
  Mewn miloedd o ffurfiau,—
I'w dwrdd nid oes seibiant,
  Llonyddwch na thrai;

Drwy y llydain heolydd
Yr edrychydd a'i cenfydd
Yn gyrru'r miliynau
Cynhyrfus a'i nwyfiant;
Geneuau y croesffyrdd
Arllwysant eu gosgyrdd;
Pob llwybr, pob palmant,
Yn ddibaid a drystiant
Gan y llanw diderfyn
O draed a'u gorchuddiant;
Rhai'n myned, rhai'n dyfod,—
Rhai'n chwerthin, rhai'n canu,—
Rhai'n welw gan brinder;
Eu gruddiau teneuon
Eu bochau liw'r eira,
A'u carpiau gyhoeddant
Eu bywyd difwyniant,—
Mor wag o gysuron,
Mor llwythog o brudd-der,
Nes gwaedu y galon!
Mae yma y weddw,
Mae yma'r amddifad;
Y troednoeth digartref,
Yn chwilio am dangnef,
A'r deigryn tryloew
Yn nofio ei lygad;
Yn ŵyl a di-rodres,
Cyfoda'i edrychiad;
Yr oll mae yn ofyn,
Y cwbl mae'n geisio,
Yw modd i bwrcasu
Ychydig o fara,
I leddfu ei newyn;
Oes rhywun dosturia?
Oes neb a gyfranna
I gaddug ei fynwes
Belydryn o gariad?

Mae yma'r boneddwr,
  Mewn agwedd drwsiadus,—
Ar y baldordd a'r dwndwr
  Y mae wedi blino;
Hiraetha am fyned
O'r twrdd a'r caethiwed
A lethant ei ysbryd;
Mae meddwl am gartref,
Ei dawelwch a'i dangnef
Digynhwrf, yn felus;
Mae yn distaw fyfyrio
Ar y mwyniant gaiff yno,
Yn ei lanw o bleser;
Yn ei wneyd yn fwy nwyfus,
Cyflyma'i gerddediad;
Mae y sibrwd yn isel
Am y llwybrau dymunol,
Am y gwyrddion gysgodau
A gyfarchant ei feddwl
Dros ysgwydd y gorwel;
Mewn gogoniant digwmwl,
Y mae cofio ei aelwyd
Ddihalog a channaid,
Lle triga'i anwyliaid
Yn gwneud yr olygfa
  Aniddan o'i ddeutu
  I ebrwydd ddiflannu
O'i wyddfod, fel breuddwyd;
Pob dychryn, pob arswyd,
  O'i olwg a gefnant;
Awn draw yn ei gwmni
Drwy y perlog wyrddlesni
  I edrych ar fywyd
Mil purach ei natur;
  Yn ymyl ei balas
Mawreddus, saif bwthyn;

Ei wedd a'i edrychiad
Yn ddigon cyffredin;
Cyfodwn y glicied,
Agorwn y drws;
Uwch Beibl agored,
Yn ymyl y bwrdd,
Yn ddifrifol ei gwedd,
Saif benyw oedrannus,
A'i gwallt fel y gwlan;
Yn ei chôl mae morwynig
Lygad-ddu a hardd
Yn yfed ei geiriau,
Tra'i bys bychan cannaid
Ym mhlith yr adnodau
Yn rhifo ei dagrau,—
O, mae y darlun yn dlws!
Rhyw nefol brydferthwch
Gorona'r olygfa!
Dwy ffrwd o ddedwyddwch,
Dwy galon sydd yma
Mewn arddunawl hawddgarwch
Cariadus yn cwrdd.

Yr eneth gyfoda'i serchog olygon
I'r llygaid cariadus a'i gwyliai mor dirion;
Gan sibrwd yn isel,
Tynerach na'r awel,
Melusach na'r gwin
Y llifai ei geiriau,
Dros wynder ei min:—

Fy mamaeth, mynegwch,—O mynegwch i mi
Pam 'r ydoedd yr Iesu mor dlawd?
Paham y gosodwyd etifedd pob bri
Yn nôd i genfigen a gwawd?

I'w gael yn Waredwr cyfaddas i ti,
Yn dlawd a dirmygus fe'i gwnaed;

O'i gur, O fy ngeneth, caed balm i dy gri,
  A nefoedd drwy haeddiant ei waed.

Drosom ni fe'i gwarthruddwyd; y diniwaid tan loes,
  Yn syndod tragwyddol a fydd;
Meddylddrych ei gariad oedd hoelio ar groes,
  Ef rwymwyd i ni fod yn rhydd!

I gleddyf cyfiawnder, i'th gadw yn fyw,
  O'i galon ddihalog gwnaeth wain!
I ti i gael coron lyfn, euraidd, ddifriw,
  Ef wisgwyd a choron o ddrain!

O flaen y dwrn dwyfol, yrrai'r creigiau i fraw,
  Diflannai'r cadernid fel dail!
Beth fuasai'n gwroldeb yng ngafaelion y Llaw,
  A siglai fynyddoedd i'w sail?

Diwaelod yw fy nhestyn,
  Heb geulan, glan, na gorwel,—
O na chawn fenthyg telyn,
  A thafod pêr yr angel;
Er seinio uwch ei donau
  Mawreddus a dieithriol,
Yn wylaidd, nodau syml
  Fy molawd addoliadol;
Ei arucheledd eilw
  Fyfyriol ostyngeiddrwydd;
Hyawdledd dwyfol leinw
  Ei ddyfnder a'i ddistawrwydd.

Ti Arwr mawr, anfeidrol,
  Fy mhwnc—O bydd i'm hawen,
Yn allu cyfarwyddol,
  Yn gwmpawd, llyw, a seren;
Pan fyddo yn frawychus
  Ei haden uwch ei ymchwydd,

A'i lanw gogoneddus
  Orchuddir yn dragywydd
O olwg llygaid meidrol,
  Mewn cwmwl a thywyllwch;
Aig o gyfrinion, bythol,
  Yr erys ei ddirgelwch.

Tydi, o'r Hwn y tardda
  Pob gallu, ffurf, a bywyd,
Fy meddwl eiddil nertha,
  Cyfranna i fy ysbryd
Oleuni a doethineb;
  Tydi, yr Hwn mae'th hanfod
Diderfyn oll yn burdeb,
  O pura fy myfyrdod
I dy weithgarwch Dwyfol,
  Fyth grëol, nid i ddeddfau
Difywyd a dychmygol
  Y perthyn holl drefniadau,
A dadblygiadau anian;
  Er cymaint eu hamrywiaeth,
Cydnabod mae y cyfan
  Awdurdod dy lywodraeth.

Bywyd yr enaid, cymhorth ni
I ddringo i'th gymdeithas di;
Pleserau gweigion brau y llawr
Ddiflannant yn dy loew wawr;
Tangnefedd pur, dihalog hedd,
Belydrant yn dy santaidd wedd.
Nid ydyw'r Greadigaeth faith
Ond rhannau o'th ddi-derfyn waith.
Cysawdiau yr eangder glân,
A wisgir â dy nwyfus dân.
Tydi sy'n llanw cannaid ffyrdd
Y nefoedd â chaniadau fyrdd.
Tydi yw'r ffynnon fythol lawn,
Lle tardda pob daionus ddawn.

Y fflamllyd, chwim-adeiniog, gôr
Seraffaidd, fry, ddaw at dy ddôr;
Eu bywyd a'u dedwyddwch ddaw,
O'th Hollgyfoethog ddwyfol law.

O! Fywyd, beth ydwyt?
Oferedd yw gofyn;
Rhy dywyll yw'th lwybrau,
Mae'n rhyfyg dy ddilyn;
Rhy bwl ydyw llygad
Eryraidd dychymyg,
I dreiddio drwy orwel
Dy fyd anweledig.

Yn wir y mae rhywbeth
Yn sibrwd i'm calon
Wrth geisio myfyrio
Dy filoedd cyfrinion,
Dy fod di yn ddwyfol!
Mae'r oll o'th weithredoedd
Yn llawn o ddoethineb,
A threfn i'w ddyfnderoedd!
Os ydyw mor brydferth
Dy gefn, o dlysineb;
Beth raid fod gogoniant
Dy ddwyfron a'th wyneb!

---

## Y DDEILEN GRIN.

ERGLYW ar gwyn y ddeilen grin
Wrth edrych ymdaith tua'r bedd,—
Mae'r barug marwol ar ei min,
Mae angeu yn ei gwedd;
O! wrthi'n dyner sibrwd air,
Ar waelod cafn y fèn,
Do, gwelwyd hon cyn hyn mewn aur
Ar gangen ucha'r pren.

Mae heddyw'n bruddaidd iawn ei drych,
  Yn trist gusanu'r llawr,
Bu gynt yn fri y plygain gwych
  A pherlog fron y wawr;
Aderyn aniolchgar, dos
  I'w hymgeleddu hi,
Ar lawer gwleb dymhestlog nos
  Cysgododd hi dydi.

Yn chwyfio bu ei mynwes werdd,
  Yn gwrido bu ei boch,
Wrth wrandaw ar dy felus gerdd,
  Neu drydar pêr dy gloch;
Dychlamu 'r oedd wrth swn dy droed,
  A'i grudd yn wên i gyd,—
Yn awr ei chur, O! gorffwys caed,
  O tan dy aden glyd.

Ond ni wrandawodd; tua'r wig
  Ehedodd o fy ngŵydd,—
Lle bynnag 'r aeth, lle bynnag trig,
  Ei ddilyn ni wna llwydd;
Mae mellten ddigllon ar ei rawd,
  I'w saeth yn nod fe'i gwnaed,—
Mewn maes gerllaw cyn hir fe'i cawd
  Yn gorwedd yn ei waed.

Os gan y nef bendithiwyd di
  A llawn a diddan nyth,
Fy nghyfaill, cofia am y llu
  Heb gysur yn eu plith;
Mae'r weddw drist i ti yn chwaer,
  A'r hen wr llwm yn frawd;
A chura 'th Farnwr borth dy gaer
  Ym mraich y prudd tylawd.

O mor anhebyg wyt i Dduw,
  Wrth gau a chloi dy ddôr
Yn erbyn cri y galon friw
  Am gyfran o'th ystôr;
Mae llygad yn dy ddilyn di!
  Mae ysbryd yn dy garn!
Yn fflamllyd dyst i'th erbyn dry
  Ofnadwy foreu'r Farn.

Os tybiaist fod haelioni 'r nef
  I'w droi a'i gau mewn cist,
Cyn hir â fflangell dengys Ef
  Yr amryfusedd trist;
Os tybiaist fod y ffrwd i gyd
  I aros wrth dy rod,
Fe'th ddysg fod ereill yn y byd
  A hawl fel ti yn bod.

Gwna fel gwna 'r ffynnon lon ei gwawr
  A'i thrysor ar y bryn,
Gwna fel y gwna yr afon fawr
  A'i chyfoeth yn y glyn;
Yn hoenus foli am ei maeth
  Mae dyffryn gwyrdd a dol,—
O'r môr dan ganu fyny daeth,
  Dan ganu ä yn ol.

Gwna fel gwna'r haul â'i gyfoeth ef,
  Ni fedda gist na chell,
Fe'i gesyd ar ei ysgwydd gref
  Ar drothwy'r Dwyrain pell;
I'w hau a'i wlawio ffordd yr ä
  A gwridog serchog wedd,—
Yn debyg, O fy nghyfaill, gwna,
  O hyn daw i ti hedd.

## CYSGODAU.

EISTEDDAIS lawr ar fin y don,
A'm bron yn ddigon prudd,—
Yn ofer gwlawiai'r lleuad lon
Ei chariad ar fy ngrudd;
Ni fedrai chwaith mo'r hafaidd hwyr
I ddwyn fy mhrudd-der ffwrdd yn llwyr.

Ol gwyn y llanw ar y traeth
Oedd glir drwy wyll y nos,
I nodi 'r pellaf fan y daeth,
Gosododd gragen dlos;
Yng ngwawr ei gwedd belydrog hi
Distawodd ennyd lais fy nghri.

Os yw y cefnfor mawr ym mhell,
O fewn y gragen glyd,
Er lleied yw, mewn cyfyng gell,
Y mae ei gerdd o hyd;
Mae cudd gymundeb rhwng y don
O hyd â mynwes heddlawn hon.

Pan fo mewn gorfoleddus hun
Y don ar fron yr aig,
Neu pan fo 'n taflu lawr ei hun
Yn gandryll dros y graig;
Y gragen gu i'r glust sy'n dwyn
Ei chwarddiad iach ynghyd â'i chŵyn.

Mae yma'r cyfnewidiol wynt
Yn siarad foreu a nawn,
Er blinder dwys ei grwydrol hynt,
Chwibiana 'n ddedwydd iawn
Dros wefus deg hufenol liw
Y gragen fud, ei garol wiw

Tydi, O! fyth aflonydd fôr,
Maddeui, gwn, i mi
Os bloeddiaf wrth dy gadarn ddôr
Mai cysgod ydwyt ti!
Mai rhith a chysgod yw dy don!
Mai cysgod yw y gragen hon!

Yr oll a welaf ar bob tu,
Cysgodau ydynt hwy,—
O wawr y cryd i'r beddrod du,
Rhaid gyru'n wrol drwy
Y rhithiau hyn, nes dod i dir
Lle nid oes ond sylweddau clir!

I'r mewnol lygad weithiau daw
Yr heirdd wrthddrychau hyn,
Ymdeimla 'r meddwl fod gerllaw
Fyd pur yr angel gwyn;
Mor agos weithiau, nes y clyw
Y bodau glân sydd yno 'n byw.

Ymguddia môr tu cefn i fôr!
A thon yng nghysgod ton!
O anfesurol gread Iôr,
Prin ond y trothwy bron
A welsom ni—nid ydyw 'r sêr
Ond adlewyrchion sêr mwy têr.

I'r chwyrn droellawg begwn oer,
Mae pegwn gwell yn sail!
Uwch rhawd y lloer mae purach Lloer!
Mae Haul tu draw i haul!
Rhyw ddafnau yw ei fydoedd ef
O foroedd cyfundrefnau 'r nef.

Po uchaf dringa'r mynydd mawr,
Iselaf sudda 'r glyn;
Yn gwenu fry! mae'r wylaidd wawr,
Ar wawr mwy teg y llyn!
Tu cefn i blygion duon prudd
Y ddistaw nos, mae'r serchog ddydd.

O groth y gauaf daw yr haf,
Ar gefn y storm daw hedd;
Llon angel anfarwoldeb sâf
Ar drothwy teyrn y bedd;
Marwolaeth dan ei lethol faich
A bywyd welir fraich ym mraich.

Mae iechyd yn y cystudd blin!
Mae hoen wrth wraidd y cur!
Y wermod bustlaidd guddia win
A diliau mwyniant pur!
Daw balm yn ffrwd i frath y loes,
Daw coron dêr o ddrain y groes!

Cydfyned â'r cynhebrwng prudd,
Mae nef orymdaith lân!
Par'toi mae dagrau brwd y rudd
Ddihalog ffordd i'r gân;
Mewn tangnef derfydd cri y gâd,
Tu draw i'r twrf mae gwenau Tad.

Bys gwaedlyd enllib, blentyn Duw,
Ni fentra gwrdd dy fri,
Na rhoddi mwy i'th enw friw,
Na pheri loes i ti;
Mwyha dy glod, dyfnha dy barch,
Dan loewon wlith nos fud dy arch.

Cefn amser heddyw atom sydd,
Yr arwyddluniog iaith
A'i cuddia, O mor syml bydd
Pan ddaw pen draw y daith;
Cawn weld ei wedd a'i santaidd fron,
Lle mae yr allwedd egyr hon.

Yn troi o hyd mae dwyfol rôd
Y greadigaeth fawr,—
I'r golwg mae y cudd i ddod
Pan ddaw ei chant i lawr;
I fyny ar ei hysgwydd gref
Daw hir glöedig bethau'r nef.

Y llen yn ol a dŷn y ddeddf
Oddiar ei nerthol fraich,
A chanu'n bêr ei cherdd wna greddf
Ar geulan bedd ei baich;
O'r ddelwedd a'r olygfa mwy,
Nid erys ond eu hengyl hwy.

Tryloew fydd y mynydd mawr,
A'r bryn mor hir a fu,
A gwelw wedd yn eistedd lawr
O fewn ei gysgod du;
Mwy clir bryd hyn na'r grisial pur
Y bydd pob craig, pob maen, a mur.

Dros benrhyn dagrau, edrych draw
Y mae fy nghalon brudd,
Tua'r wlad ddigysgod, nefol ddaw
Cyn hir i lonni 'm grudd;
Ystormus wyll nos drist fy nghri
Yn ddydd tragwyddol yno dry.

Y cledd yn balmwydd yno dry.
A'r pryder yn fwynhad,
Holl loes yr oes am byth a ffy
Pan welir caerau'r wlad;
Yn anghof â pob clwyf a chraith,
A blinder dwys y droellawg daith.

Pob bustlaidd ffrwd dry yno 'n fêl,
Pob braw ddiflanna 'n lân;
Yr erwin 'storm pan dŷr ei sêl
A dawdd yn nefol gân;
O'th fewn o ddedwydd santaidd dir,
Mae'r oll yn weledigaeth glir.

Dyheu y mae fy nhonnog fron
Am brofi 'r Iawnol Wyrth,
Hyn wna i mi i deimlo 'n llon
O flaen dy berlog byrth;
Hiraethlawn ydwyf am dy hoen,
O dêr dragwyddol wlad ddiboen!

Pa bryd y daw y ddedwydd awr
A balm i frath fy mriw?
Pa bryd y caf roi 'm baich i lawr?
A gorffwys yn fy Nuw?
Yw ymson y pererin prudd,
A'r dagrau ar ei welw rudd.

Mae wedi blino, blino 'n llwyr,
I ddwyn y groes mor drom;
Bob boreu a phrydnawn a hwyr
Ni wna ef gwrdd ond siom;
I'w brofiad athrist, ffug i gyd
Yw 'r pethau goreu fedd y byd.

Rhuadau 'r fall o'i marwol ffau
Bob cam o'r ffordd a glyw;
Yng nghanol brad cyfeillion gau
Bob dydd y mae yn byw;
Drwy goedwig o bicellau mae
Y ffordd i'w wlad o dalaeth gwae.

Er hyn yn mlaen yn ëofn â
Drwy y gelynol lu,—
I'w ymdrech gŵyr fod diwedd da,
Mae'r Nef a Duw o'i du;
Holl allu 'r ddraig beth yw o werth
Mewn gornest âg Anfeidrol nerth.

Y meddwl am y tangnef drud
Pan ddaw y daith i ben,
Rydd nerth o'i fewn i fod yn fud
Mewn dirmyg, gwawd, a sen;
Etifedd teyrnas ydyw ef,
Mae coron ganddo yn y Nef.

Boddlonrwydd welir ar ei rudd,
Er mor gystuddiol yw,
Yn fuan yn ddiangol bydd
O bob rhyw nych yn byw;
Yn nesu, nesu mae o hyd
I dŷ ei Dad, ei gartref clyd!

Y dwrn a glwyfa, guddia 'r llaw
Garedig a iacha;
O'r brofedigaeth gras a ddaw,—
Y ffwrn yn well a'n gwna;
Po fwyaf tỳn y gadwen fydd,
Mwy cryf â'r serch am fod yn rhydd.

Ei fron hiraethlon weithiau lysg
Gan ryw angerddol flys,
I newid y filwrol wisg
Am fantell wen y llys;
Ond ef gaiff nerth, er cryfed yw
Y nwyd, i aros amser Duw.

I ryngu bodd ei Nâf yw nôd
A baich ei gyson lef;
Ni lwydda bri y byd na'i glod
I'w ddwyn o'i lwybrau Ef;
Hoeliedig yw ei serch a'i fryd
Mewn purach, gloewach, gwynach fyd.

Pan fyddo yr anuwiol lu
A'i fwyniant oll, ond rhith;
Gochelwn ei ddeniadol wawr,
A'i rwydol farwol lith;
Drwy gredu hon mil myrdd a wnaed
Yn gelaneddau dan ei draed.

I lys y ddawns a bwrdd y wledd,
Oferedd i ni droi
I ofyn am sylweddol hedd,
Ni fedrant hwy ei roi;
Ni ddichon neb ond Duw ei Hun,
Dawelu meddwl euog dyn.

Gredadyn trist a phrudd, O taw!
Wyt ar gyffiniau 'th wlad,—
Bydd foddlon enyd bach—gerllaw
Mae cerbyd clyd dy Dad;
Os wyt yn llesg; os wyt yn wan,
Cai orffwys gartref yn y man.

Oddiwrth dy lygredd fel yr aur
Y'th welir yno 'n lân,—
Am bob ryw fflangell, croes, a phair
Ni dderfydd fry dy gân!
Fyth yno pob rhyw friw a chlwy,
Dedwyddwch fydd eu cofio hwy.

Y dagrau gollaist ar y ffordd
Yn berlau welir fry!
Gerllaw dy orsedd bydd yr ordd
A'r graig o'th fewn a fu,
Yn dystion o ryfeddol werth
Y Dwyfol waredigol nerth.

Bydd cofio'th gyflwr pan y'th gaed
Gan rasol law y Nef,
Ddwyseiddio 'th fawl i'r Iawnol Waed
Ym mron yr anthem gref;
Anfeidrol gariad esyd dân
Na ddiffydd yn dy ddiwair gân.

Bu 'r wermod yn par'toi dy fin,
A'r newyn du dy wedd,
I dderbyn pêr gyfriniawl win,
A seigiau pur y wledd;—
Urddasol wledd dadlennu 'th fri,
A dathlu dy goroniad di.

Ar ol y nos alarus, ddu,
Mil harddach fydd y wawr;
Ar ol yr anial gwyllt, mwy cu
Fydd tarth hyfrydol sawr
Y fro flodeuog, heulog, dêr,
Tu draw i'r perlog lonydd sêr.

Ar ol llwm garpiau oerion byd,
Mor hyfryd fydd y wŷs
I ddwyn y wisg freninol, glyd,
A'r fodrwy ar dy fys;
Ar ol y cibiau gweigion gwyw,
Mwy blasus fydd grawn Escol Duw.

Na ddened pleser ni i ffwrdd,
A'r lliwgar faich a ddwg,—
Afalau Sodom ynt—eu cwrdd
Dry'r oll yn blisg a mwg;
Paham pwrcaswn gysgod gwael?
A'r sylwedd drud am ddim i'w gael!

Pam lliwiwn greigiau ffawd â'n gwaed,
Wrth arch ei llithiol lef?
Tra yn pelydru wrth ein traed
Mae gemau goreu'r nef!
A gefnwn ar y glân a'r pur,
Am bethau fydd o'u cael ond cur?

Pe cawsem hufen anian oll,
Ymgeulai wrth ei ddwyn!
Mae aur y serch yn ormod toll
Am fyr-barhaol swyn;
Nid yw'r mwynhad yn wir yn werth
I droi ei rôd â ffrwd ein nerth!

Tydi a brynwyd gan y byd,
Rhy fach am danat roed;
Ni'th wnaethpwyd, O greadur drud!
I'th osod dan ei droed;
Anheilwng o dy urddas yw,
Ddinesydd rhydd llywodraeth Duw!

Manteisiol heddyw yw i ti
O'i lys gormesol ffoi ;
Oferedd draw fydd codi'th gri,
Rhy dèn â'r ffrwyn i droi ;
Na wrandaw ar ei acen lefn
Yn awr dy eisiau try ei gefn.

Mae Cyfaill can' mil gwell na hwn
I'w gael—mae am dy gwrdd,
Bechadur prudd, dy ingol bwn
O ofnau ddwg i ffwrdd ;
Dysg i dy galon drom dylawd,
Fod ganddi, ym mhob gwasgfa, Frawd.

Nid enw gwag, neu gysgod brau
Yw hwn—yn ebrwydd ffy,
Na enw 'n llawn o nerth di-drai,
Yn graig i'th ddal a dry ;
Hwn ydyw'r allwedd egyr ddôr,
Holl gyfoeth cariad calon Ior !

Cael hwn yn gysgod ac yn nawdd
Ym mhob rhyw lid, fo 'th ran,
Ac yna gelli fforddio 'n hawdd
I ganu yn mhob man ;
A brofo 'i rin, O ! gwyn ei fyd !
Mae ganddo loches ddiddos, glyd.

Os ydoedd gynt, fath fri a pharch
I arch mewn cysgod pell,
Anfeidrol uwch yw hawliau arch
A thrugareddfa well,—
Drwy 'r Enw hwn uwch Teml gaed,
Un deilwng, o ragorach gwaed.

Ni raid i'r Lefiad awchu mîn
Ei gyllell waedlyd mwy,
Aberthau o gysgodol rîn,
Y Ddeddf a'i gwrthyd hwy;
Darparwyd trefn i'r oen i fyw
Yn angeu Oen Dihalog Duw.

Ni raid dwyn bustach mwy, na hwrdd,
Na chwaith 'r un anner goch,—
Canwyllbren ddrud, aur wisgol fwrdd,
Na thuser bêr, na chloch;
I'r pethau hyn, lle mwy nid oes,
Caed dodrefn gwell drwy Farw'r Groes.

O farw rhyfedd! heb ei ail,
Na thebyg iddo 'n bod,—
Nid syn fod haul mewn braw i'w sail
Yn duo ar ei rôd,
Neu fod yn dattod rhwymau 'r graig
Uwchben ei anmhlymiadwy aig.

Nid rhyfedd fod y fynwent fawr
Yn ymwaghau ei hun,
Er gwneuthur lle i ddod i lawr
I'r Dwyfol Berffaith Ddyn!
Erioed ni fu, nid oes, ni fydd
Ei fath o dan ei chronglwyd brudd.

Wrth geisio cauad drysau'r bedd,
A'i ysgwydd gref i'w cloi,
Nid syn fod Angeu dewr ei wedd,
Yn gysgod wedi troi;
Drud iawn fu dal yr Hwn a'i gwnaeth,
Ei hoenus nerth yn wendid aeth.

Ef gofia 'r ymdrech hon yn hir,—
   Ië, byth yr erys hon
O'i fewn yn ffynnon ddu o gur,
   Yn archoll ar ei fron;
Y groes borphoraidd fydd y stanc
I'w rwymo ef i'w olaf dranc.

Y bigog bleth i'r Uniawn ddaeth,
   Efe ei hun wna 'i dwyn,—
Ei hoelio wneir â'r hoelion wnaeth
   I ddal yr Iesu mwyn;
Bererin nef, nac ofna fraw,
I ti o'i wg gwên ddwyfol ddaw.

Y glyn! yn arswyd oesau fu,
   I ti fydd ddenawl iawn,—
Drwy ganol ei dywyllwch du,
   Gwnaed prif ffordd goch yr iawn;
Yr harddaf dalaeth Duw a fedd,
Sefydlwyd ar geulanau'r bedd.

Nid syn fod y lygredig fron
   Yn derfysg ac yn dwrdd,
Lle mae'r ddaearol farwol dòn
   A bywyd pur yn cwrdd;
Ei dynged ŵyr,—yn nhymestl gref
Y cyfarfyddiad cleddir ef.

Tragwyddol sudda! sudda 'i lawr
   Heb gwmni ond ei friw,
Ac er ei doi gan ddyfnder mawr,
   A'i ddryllio, mae yn fyw
I fewnol frath ddirdynol siom
Ei anobeithiol galon drom.

Yr hyn i'r annuw sydd yn drai,
A chreigiau llawn o frad,
I'r duwiol sydd fel llanw Mai,
I'w ddwyn i'w hafaidd wlad;
Cartrefle harddwch! magawl dir,
Gorfoledd a dedwyddwch clir!

O santaidd drefedigaeth dêr!
Pa bryd caf groesi 'r môr
I wrandaw ar delynau pêr
Dy lwys anfarwol gôr?
Pa bryd caf ddringo o fy nych
I gylch adseinia 'th euraidd glych.

Bu afon ddofn y Dwyfol Hedd
Yn arllwys ar dy lan,
O fêr y tiroedd goreu fedd
Y nefoedd ym mhob man;
O fro gyfoethog! rhaid fod bri
I'r ddinas adeiladodd hi!

Os oedd mor deg i'r Alltud Fardd,
Ei chysgod gynt a'i llun!
Pa faint mwy teg, pa faint mwy hardd,
Y ddinas bur ei hun?
Arddunedd ei gogoniant llawn
A heria bob darluniol ddawn!

Oferedd chwilio 'r mynydd mawr,
Na gwaelod cryd y dòn,
Am geinion er desgrifio gwawr
Cain adeiladaeth hon;
Aur, grisial, perlau, meini drud,
Delweddau mudion ynt i gyd!

Wrth y Dychymyg beiddgar, fry!
Ei gwychder ddywed,—Ust!
I'w meddylddrychau lleiaf hi,
Rhy gul yw porth y glust;
Rhaid esgyn i'r ddihalog bau
I'w sylweddoli a'i mwynhau.

Blinedig ydwyf ar y byd,
A'i fyrdd cysgodau ef;
Hiraethlon wyf am fröydd clyd
Byth-wyrddion hafnau 'r nef;
Byw fydd fy nghri, a chur fy nghlwyf,
Nes cyrhaedd eu tawelwch hwy.

Brwd chwys fy lludded yno dardd
Yn oer adfywiol wlith,
Drwy flodau'r llechwedd werdd, lle chwardd
Pelydrog graig fy nyth;
Byrlyma eilwaith yn fwy glân
Drwy flodau tecach bron fy nghân.

I'm herbyn doed y gwynt, os myn,
I'm herbyn doed yr aig,
I fyny ar ei lanw gwyn,—
Mi ganaf ar fy nghraig!
Doed picell ac adeiniog saeth,
Fy nharian yw yr Hwn a'm gwnaeth.

Uwch cynhwrf pob tymhestlog nwyd,
Uwch dadwrdd blin y fron;
Uwch pob uffernol, farwol, rwyd,
Yw ysgwydd lonydd hon!
Pan f'o y byd ei ddrysau 'n cloi,
Mor felus fydd cael hon i droi.

Pan ddelo dychryn bedd i'r lan
  Ar gefn ei löaidd farch,
Pan fyddo 'n ceulo 'm calon wan,
  Awelon oer yr arch,
Ni lwfrhaf, bydd Duw gerllaw,
Ymguddiaf yn ei Ddwyfol Law.

Pan syrth i'r bedd, y beddfaen blin,
  A'r glaswellt drosto'n drwch,
Pryd hyny uwch fy mhen bydd Un
  Yn gwylio ar fy llwch;
Wrth sain ei gorn y daw i'r lan
Yn anllygredig yn y man.

Yn magu gwawr mae 'r olaf hûn,
  Rydd oleu ar brydnawn
Dieithriol marw, oer ei fin
  A'i fynwes rewllyd iawn;
Ar pa'm oedd raid i'r cwpan fu
Yn gwynu 'r wedd, mor llawn, mor ddu.

Ar lawer tro a wnaethom gwrdd
  Pan yma ar y daith,
Ar lawer mwyniant ddygwyd ffwrdd
  Wnaeth aml ddydd yn llaith;
A phrudd y rudd ar lawer gwledd,
A surwyd gan feddyliau'r bedd.

Ar fil o gymwynasau drud,
  Gan engyl i ni wnaed,
Pan oedd cynddeiriog fleiddiaid mud
  Yn cynllwyn am ein gwaed,
Ar y bendithion fwy a mwy
A gawsom yn eu cysgod hwy.

Ar y peryglon fyrdd heb friw
  Oll drwyddynt â ni 'r aed,
A'r lluoedd rhwydau heirdd eu lliw,
  Ond marwol wnaed i'n traed,
Y'n cadwyd draw! ein mawl am hyn
Adseinia llawer nefol fryn.

Hyd nes daw 'r wŷs i'n dwyn i ffwrdd
  Yn nghulfor garw oes,
Er maint ei ru, er maint ei dwrdd,
  Angorwn wrth y Groes!
Cadernid hon rydd nerth i ni
I ganu yn y berwol li'.

Bob dydd, O! ceisiwn fyw yn well
  I Lyw 'r dyfodol draw,
Y marw, a'r bedd, a'r codi pell,
  Gadawn hwynt yn ei law;
Boed i ni ynddo godi carn
Lle gallwn droi rhag mellt y Farn.

A'r agos sydd â fynom ni,
  Gadawn i Dduw y pell,
Hyd nes cyrhaeddwn ato fry
  I fro 'r goleuni gwell,
Pan fyddwn ynddo wedi 'n cau
Yn gwrando arno a'i fwynhau.

———

## DYMA 'R FAN A GARAF FI.

DRINGA rhai y mynydd cribog
  Gwyllt daneddog er cael hedd,—
Glan yr afon fawr, ddolenog,
  Rydd i ereill nwyfus wledd;
Ond y gilfach ddeiliog, dawel,
  Draw ym mhell o swn y llu,
Lle cartrefa 'r wylaidd awel,
  Dyma 'r fan a garaf fi.

Mi gaf yma hedd heb ludded,
Nwyf heb flinder yma sydd,—
Yma teimlaf fy nghaethiwed
Wedi 'm gadael, minnau 'n rhydd;
Mi gaf eistedd wrth y ffynnon,
Mi gaf wrandaw murmur cu
Ei grisialaidd ddyfroedd gloewon,—
Dyma 'r fan a garaf fi.

Rhy unigol yw yr ogof,
Rhy bruddglwyfus min y don,—
Hiraeth dwys yn hir fu ynof
Am y gilfach heulog hon;
Ynddi y llonydda 'm calon
Ynddi y distawa 'm cri,—
Bedd sydd yma i'm gofalon,
Dyma'r fan a garaf fi.

Iddi at yr ednod llawen,
Croesi wnaf ei throthwy hardd,—
O mae 'n dlos i lygad awen,
O mae 'n gu i galon bardd!
Yma ceir y tecaf flodau,
Haf yn ysgrifenu fu
Ei glaer enw ar ei changau,
Dyma'r fan a garaf fi.

Gilfach anwyl! ni raid gofyn
Am dy Awdwr--eglur yw,
Ar bob deilen a glaswelltyn,
Mai yr Hwn a'th wnaeth yw Duw;
Ef a glywaf yn dy fiwsig,
Ef yw urddas, Ef yw bri,—
Dy gysgodau cysegredig,
Orig ynot rho'er i mi.

## CYDYMDEIMLAD.

Os gwena haul siriol Rhagluniaeth
  Drwy 'th wybren ddigwmmwl uwch ben;
Os cnydiodd dy feusydd yn helaeth,
  Os ffrwythodd drwy 'th berllan bob pren;
Yn nghanol dy gyfoeth a'th lawnder,
  O! paid ac anghofio dy hun,
Drwy fathru dy weithiwr i lwmder,
  Mae 'n ddyn! nid wyt tithau ond dyn.

Tydi, y masnachwr cyfoethog,
  A'th gistiau griddfanol yn llawn,
I rodio 'th lawr-leni sidanog,
  Yng nghanol pob llawnder a dawn;
A glywaist ti weithian yr ergyd,
  Gan law oedd grynedig a blin?
Y newyn sydd yn ei wynebpryd!
  Na wawdia ei agwedd! mae'n ddyn!

Tydi, y crefyddwr difrychau,
  A'th ddwylaw dihalog a phur!
Rhy aflan yw 'r meddwyn yn ddiau
  Sy'n griddfan fan yna mewn cur,
I'w gwrdd â dy fysedd claerwynion;
  Er hagred, er garwed ei lun,
O! paid a throi ymaith yn ddigllon,
  Tosturia! mae 'r truan yn ddyn!

Mae ynddo ef *enaid anfarwol*,
  Er pelled, er dyfned yr aeth;
Edrycha i'w wyneb yn siriol,
  Heb goffa y beiau a wnaeth;
A dysga i'w galon ef deimlo,
  Eich bod chwi mewn cariad yn un;
A'i fod yn yr eigion mae ynddo,
  Er dued ei gyflwr, *yn ddyn!*

Mae mwy o ddylanwad i ddeigryn,
Ar ymyl dy amrant yn fud
(Hwn chwery yr enaid fel telyn),
Na'th swnfawr gynghorion i gyd;
Tynerwch, sirioldeb, a chariad,
Yw 'r moddion yn unig raid drin,
I ddenu o'i foesol wrthgiliad,
*Y bod gogoneddus, sef dyn!*

---

## Y DDYFR-GLOCH.

Mi safwn uwch yr afon,
A'i chwarddol wyneb glân,
Yn gwrandaw pêr furmuron
Ei melus nwyfus gân;
Daeth awel ieuanc heibio,
Gan ddawnsio ac ymbyngcio—
Eisteddodd ar y don;
Sisialodd enyd yno,
Ac wele! fyny 'n neidio
I wrandaw 'r bwrlwm llon!
O! 'r oedd yn hardd! ei odrau
Oedd oll yn aur a pherlau!
Tan goron o belydrau,
Yr oedd ei ben mewn gemau,—
Amryliw oedd ei fron!
Meddyliais cawswn oriau
Fwynhau'r olygfa hon;
Ond ebrwydd yr ymddrylliodd,
Ei harddwch oll ddiflanodd,
Y don i'w bron a'i cipiodd,—
Fy nghalon brudd sibrydodd,
Yr oedd yn tagu bron;
Pa le? pa le y ciliodd?
O, mae y bwrlwm llon?

Ond rhywun draw a'i clywodd,
Ac ebrwydd ail-ddywedodd—
  O, mae y bwrlwm llon?
Yr afon lifa 'n dawel,
Ar frig y don mae 'r awel,
  Ond mae y bwrlwm llon?
Y llais ail-dd'wedai 'n isel
  I'm clust—"Mae 'r bwrlwm llon?"

Un boreu hafaidd, hyfryd,
  O fewn ystafell wych,
A'i gwyneb oll yn wynfyd,
  Yn gwenu yn y drych,
Y gwelid geneth hawddgar—
A llygaid llon, meddylgar,
  Edrycha ar ei bys;
Tu allan mae yr adar
Yn canu ac yn trydar,
Yn felus ac yn ddengar;
I'r oll mae heddyw'n fyddar—
  Mae'r fun i gyd yn frys;
Ym mhell uwchlaw y ddaear
  A'i swynion mae ei llys;
Ei heuraidd wallt wna ddadrys,
Fe'i pletha yn ofalus;
Gwrandewch y geiriau melus
A lifant dros ei gwefus
  Gwrelaidd, deg, i lawr.

Mae'n wyth o'r gloch a rhagor,
Awr eto ddwg fy nhrysor
I'm harwain at yr allor,
  A'm modrwy deg ei gwawr;
I'm priodasol oror
  Nid oes ond pedair awr;
Ond yn y culfor hwnnw,
Ag oedd mor llyfn a gloew,

I'r fun 'r oedd tywydd garw,—
Yr oedd yn ddigon gwelw
  Ar ben ei phedair awr,—
Yr ydoedd wedi marw
  Cyn croesi'r pedair awr.
Ei modrwy aeth yn amdo,
Rhaid heddyw yw ei chludo
Mewn arch i'r allor honno;
Gwnaeth hyn i mi i gofio,
  I gofio'r bwrlwm dwr,
  Y prydferth fwrlwm dwr—
I feddwl a myfyrio
Ar wers y bwrlwm dwr;
Mae'r allor wen yn aros
Yn dawel yn y diddos,—
  Pa le mae'r wyryf lon?
Nid ydyw yn ymddangos,
Ei heulog, serchog wedd;
Daeth llais i fyny o'r gladdfa
  Fel mwyn nefolaidd dôn,
Ddywedai'n ddistaw—Yma,
Yr eneth a orwedda—
Yn dawel, dawel huna!
Tyr'd yma a darllena
  Y gareg uwch ei bedd;
Gwnaeth hynny i mi gofio,
I feddwl a myfyrio,
  Ar wers y bwrlwm dwr;
Brau fwrlwm ydyw iechyd,
A'i loew liwiau hyfryd,—
Brau fwrlwm ydyw bywyd
  Y wers yw'r bwrlwm dwr,—
Boed i ni oll i gofio,
Ystyried, a myfyrio
  Ar wers y bwrlwm dwr,—
Myfyrio, dwys fyfyrio
  Gwers brudd y bwrlwm dwr.

O'i ffenestr, un diwrnod,
  Edrychai gwraig i lawr,—
O'i llygaid llawn o drallod,
  Mae'n treiglo ddeigryn mawr;
Cyn hir daeth gwên i symud
Y prudd-der o'i gwynebpryd,—
  Cyn hir y chwardda'n glir;
Nid oes ond eto ddau-fis,
Ond dau-fis, ddim ond dau-fis,
Cyn gado'r swn gofidus
Wna'm calon mor ddolurus,—
  Nid ydyw hyn yn hir.

Caf fyned maes o'r berw,
A'r blin ferwinol dwrw,
I blith awelon hoew
Y wlad, i'm gwyneb gwelw
Daw gwrid o'i gwybren loew;
  'R wyf bron yn iach yn wir
Gan faint yr hedd wna'm llanw
  Wrth feddwl am y tir;
Mae i mi balas yno
Yn barod i'w breswylio;
Nid oes ond dau-fis eto,
Ond dau-fis, dau-fis eto,
Cyn bod yn ddedwydd ynddo,—
  Mor hapus yno bydd.

Caf ado'r ddinas afiach,
A thwrf gwastadol masnach;
Gwnaf yno rodio'n holliach,—
  Gwyn fyd na wawriai'r dydd!
Caf yno hyfryd ganu,
Mewn moroedd o oleuni,
Ym mhell uwchlaw tylodi,
Heb ofal i derfysgu
  Fy nghalon na fy ngrudd.

Caf rodio hwyr a boreu,
Ar hyd rhosynog lwybrau,
Drwy donnog aur belydrau
Lle mae yr harddaf flodau,
A'r tecaf feill yn chwareu,—
  Rhyw ddau-fis eto sydd
Cyn byddwyf o'm cadwynau,
  Yn ddedwydd, ddedwydd rydd,
Ym mhell tudraw'r taranau,
Sydd beunydd yn fy nglustiau,
Fel gwrdd dymhestlog donnau;
Yn nhangnef y gwerddonau,
Yn gwrandaw peraidd leisiau
Yr adar ar y cangau,—
  O'r mwyniant hyn a fydd;
'R wy'n byw ar wawr dy foreu,
  O baradwysaidd ddydd;
Fy nau-fis du o rwymau
A dodda dy belydrau,
Mae eisioes fy serchiadau
  Yn rhodio yno'n rhydd;
Gwyn fyd na wawriai'th foreu,
  O ddedwydd, ddedwydd ddydd;
Nid oes ond dau-fis eto,
Hyd nes y daw i'm cludo
Hardd gerbyd tuag yno,
I mi gael dringo iddo,—
  Gwyn fyd na ddeuai'r dydd!
Nis gwyddai'r wraig fod yno
Un arall yn ei gwrando—
Fod gelyn yn clustfeinio,
  Ac yn par'toi ei saeth
A'i fwa, er ei chlwyfo.
Yn hwyr y noson honno,
Drwy'r tŷ y clywid wylo,
A'r dagrau brwd yn llifo,—
  Y gân yn gwynfan aeth;

Yn cuddio y ffenestri
Bryd hyn mae gwynion leni ;
Mae'r clychau wedi tewi,
Y dwrn o bres a dery
Y drws, sydd heddyw'n gweini
Yn ddistaw ar y teulu—
  Mewn rhwymau, mae yn gaeth ;
Do, daeth y cerbyd yno,
Am gerbyd bu'n dymuno,
Y wraig, i dd'od i'w chludo
  I'w chartref hardd ei wedd ;
Do, do, daeth cerbyd yno,
Ac elor iddi ynddo—
  Prudd gerbyd du y bedd ;
Do, do, daeth cerbyd yno,
Dan chwyfiol bly' i'w chludo
  Nid gartref, ond i'r bedd.
Gwnaeth hyn i mi i gofio,
Ystyried a myfyrio,
  Ar wers y bwrlwm dwr ;
Brau fwrlwm ydyw iechyd,
A'i loew liwiau hyfryd—
Brau fwrlwm ydyw bywyd,
  Yw gwers y bwrlwm dwr.
Boed i ni oll i gofio,
Ystyried a myfyrio,
  Ar wers y bwrlwm dwr ;
Myfyrio, dwys fyfyrio,
  Gwers brudd y bwrlwm dwr.
Mae'r dref yn llawn gorfoledd !
  Mae'r benyr ar y coed !
Cyrhaeddodd yr etifedd
  Ei un-ar-hugain oed ;
Rhaid ydoedd deffro'r clychau
  I ganu am y dydd ;
A gollwng holl daranau
  Magnelau'r fro yn rhydd ;

Mae'r dydd i fod yn llawen,
Rhaid ydyw cyrchu'r awen
O'i chudd gysgodol gangen,
I seinio'i pheraidd acen,
  Pendefig yw y gwr—
Mae iddo fri ac urddas,
Rhaid yw goleuo'r palas
I lonni'r goeth gymdeithas
Ddaw iddo—mae'n gyfaddas
I gyrchu cyrn y ddinas
  I'r lle i gadw 'stwr.

Yr haul aeth lawr i'r tonnau,
Rhaid dringo fyny'r bryniau
A thân, a phyg, a ffaglau,
I wneyd yr oll yn oleu,—
  Rhaid troi y nos yn ddydd.
I gadw draw bob gelyn
Ac yspryd prudd, rhaid disgyn
Ar frys i lawr i'r dyffryn
I gyrchu'r swynol delyn,
Ac hyfryd gerddor medrus
I'w hwylio yn hudolus,
Nes denu miwsig melus
  Ei fron o'i rwymau'n rhydd;
Rhaid ydyw canu a dawnsio,
Rhaid ydyw gwaeddi a bloeddio
Yn uchel a diflino
Nes delo i oleuo
  Y dwyrain eto, dydd.

Darfyddodd y rhialtwch,
Mae'r oll yn awr yn heddwch,
Tangnefedd a thawelwch;
Yn huno mewn llonyddwch
  Mae'r fro heb gri na 'stwr;
Er hyn mae'r dydd i'w gofio,
Rhaid gwneyd côf-golofn iddo

O farmor gwyn ; rhaid chwilio
Am feddwl i gynllunio,
  Ac adeiladu tŵr.
Y golofn a orffenwyd,
Y tŵr a adeiladwyd,
Yn brydferth fe'i dodrefnwyd,—
Claer faner arno godwyd,
  Ond enyd yno fu ;
Ar frys i lawr fe'i tynwyd
  Er codi baner ddu.
Bu farw yr etifedd ;
Diatrwyd ef o'i fawredd,
I'w roi mewn arch i orwedd,
  Yn ddwy-ar-hugain oed !
Mae heddyw yr etifedd
Yn bruddaidd iawn ei agwedd,
  Fan acw dan y coed ;
Mewn beddgell oer yn gorwedd
  Yn ddwy-ar-hugain oed !
Ym mhlith ei dadau'n gorwedd
  Yn ddwy-ar-hugain oed !
Mae'r golofn wen yn aros,
  Yn aros mae y tŵr ;
Mae'r palas mawr yn aros,
  Ond mae yr ieuanc ŵr
A berchenogai'r cyfan ?
Nid yw efe yn unman
I'w weled—heddyw, griddfan
Sydd, lle bu dawns a chyngan ;
  Diflanu wnaeth y gwr
A etifeddai'r cyfan,
  Fel gwnaeth y bwrlwm dwr ;
Er meddu aur ac arian,
Ac etifeddiaeth lydan,
A chartref clyd a diddan,
Rhaid ydoedd mynd ei hunan,
  Fel gwnaeth y bwrlwm dwr !

Yn unig iawn, ei hunan,
  Fel gwnaeth y bwrlwm dwr!
Gwnaeth hyn i mi i gofio,
Ystyried a myfyrio,
  Ar wers y bwrlwm dwr;
Brau fwrlwm ydyw iechyd,
A'i loew liwiau hyfryd,—
Brau fwrlwm ydyw bywyd,
  Yw gwers y bwrlwm dwr;
Boed i ni oll i gofio,
Ystyrio a myfyrio,
  Ar wers y bwrlwm dwr;
Myfyrio, dwys fyfyrio,
  Gwers brudd y bwrlwm dwr!

---

## CERDD Y DAFNAU.

Cwyd fy nghalon, gad dy brudd-der,
Yf o'r ffynnon lân o bleser,
Sydd yn ffrydio ac yn llifo, hwyr a boreu,
O dryloewon eiriau'r dafnau,—
Pêr felusion seiniau'r dafnau.

O! 'r llawenydd! O! 'r gorfoledd
Heulog! beunydd sydd yn gorwedd
Yn y miwsig cysegredig ddaw o dannau
Telyn ddedwydd cerdd y dafnau,—
O ysblenydd gerdd y dafnau.

O mor serchog, dan y gangen
Werdd belydrog, yw yr ywen;
Canu a dawnsio tra mae'n gwrando ac addoli
Llith ardderchog, dêr y dafnau,—
Drud, odidog gerdd y dafnau.

Hoen ac iechyd, diflin fwyniant
Difrycheulyd nwyfus lifant
Drwy y teimlad, byw o gariad ydyw diliau
Adlais hyfryd cerdd y dafnau,—
Gwinoedd gwynfyd leinw'r dafnau.

Yn fy ngalw o daranau
Byd, a'i ferw, i'r gwerddonau,
Mae'r dihalog lednais serchog feddylddrychau
Sydd yn esgyn, ac yn disgyn,
Yn y gloew, hafaidd ddafnau.

Gwyro'u pennau ar y borfa
Drom o berlau gwelir yma
Y digrifol, fud, chwareuol, siriol flodau,
Yn foddhaol o dan donnau
Swn perlifol cerdd y dafnau.

Orig dawel yma dreuliaf,
Gyda'r awel yr eisteddaf,
I fyfyrio a chlustfeinio yn ddieisiau
Gerllaw'r angel drefna ffrydiau
Alaw isel, lon y dafnau.

Rhyw hyfrydol, gudd hyawdledd,
Dardd o'r nefol glir gynghanedd,
A'r didrallod lyfn gyweirnod, fythol oleu
A deniadol, gwyd o nodau
Coeth, arddunol gerdd y dafnau.

Baich fy nwyfron flin, drallodus,
Nos fy nghalon, drom alarus,
A ddiflanant ac a doddant yn ddiddanus
Bur gysuron, wrth siaradus
Dip! dip! cyson, cerdd y dafnau.

Côr y goedwig a ddistawodd,
Rhyw bêrlewyg a'i meddianodd,
I fudanrwydd a distawrwydd, â'u caneuon,
Lu caredig, wrth adseiniau
Nef-anedig cerdd y dafnau.

Myrdd o lygaid llon, cariadus,
Fry! ar delaid bont yr enfys
Oedd i'w canfod fel mewn syndod, oll yn gwylio
Symudiadau cerdd ddifyrus,
Gu, y cannaid risial ddafnau.

Brwd ddiolchaf yn wastadol
I'r Goruchaf Fod Anfeidrol;
Ef yw Llywiwr a Rheolwr fy mhleserau;
Ef a folaf am ei ddoniau,—
Ato dringaf drwy y dafnau.

## CERDD Y WAWR.

AR y gorwel drist, amddifad,
O mor siriol yw tywyniad
Tlos, blygeiniol lusern Cariad,—
Mae y Dydd ar ddod i lawr!
Awn, O! awn, yng nghwmni'r awel
Fry! i ben y mynydd uchel,
I groesawu'r boreu tawel,
Ac i wrandaw Cerdd y Wawr.

Clywir cyffro ar bob cangen,
Mae'r uchedydd ar ei aden
Wlithog yn telori'n llawen;
Nos a glywa fin yr awr;
Canaid awr ei gweddnewidiad
Yn ei bron yn dechreu siarad,
Gwên yr hon a rydd eneiniad
Ar belydrog Gerdd y Wawr.

Siglo mewn boddhad mae'r blodau,
Eu dihalog, berlog bennau,
Y mae tarth eu gloew ddiliau
Yn dyhidlo peraidd sawr;
Cyntaf sain cyweirnod dedwydd
Anthem creadigaeth newydd
Natur, gipia o'r distawrwydd,
Fwyn ysblenydd Gerdd y Wawr.

## CERDD YR HWYR.

HARDD iawn yw'r wawr yn tori
Ym moch y cwmmwl prudd,

A phrydferth iawn yw'r tlysni
Ar wefus aur y dydd;
Gwnant hwy ogleisio'r llygad,
A dwyn ei sylw'n llwyr,
Ond goglais dyfnaf deimlad
Fy mron, wna Cerdd yr Hwyr.

I'r clyw, O mae yn felus !
Y bêr foreuol gân,
Wrth grwydro yn ddiddanus
Drwy'r gwlithog ddyffryn glân ;
Ond gwn am gerdd a dodda
Fy nghalon megis cwyr,
Hyawdledd hon a dania
Fy ysbryd, Cerdd yr Hwyr.

Cyhoedda anian serchog
Fod Holl-bresenol Dduw,—
Dweyd hyn wna'r dail pelydrog,
Dweyd hyn wna'r blodau byw ;
Ond ni raid neb fy nysgu
Yr hyn fy enaid ŵyr,—
Do, do, fe'i profais felly
Ar ysgwydd Cerdd yr Hwyr.

---

## THE CUCKOO.

Oh ! how I love that welcome voice,
It fills my heart with mirth and glee;
It weans my mind from strife and noise,
To scenes long lost, all dear to me,
For then I was a happy boy,
Filled with contentment, peace, and joy.

I love thy lay ! it bids me roam,
And contemplate on pleasures past ;
To taste again the sweets of home,
Untouched by time's consuming blast ;
When life was like a garden fair
To me, without the thorns of care.

Sing on, dear bird, enchantments flow
  From thy unvaried simple strain;
It fills my breast with youthful glow,
  As on I tread the dewy plain;—
Thy "cuckoo!" "cuckoo!" ever dear,
In yonder glen I love to hear.

---

## THE PRIMROSE.

SMILING at the dawn of day,
In the sparkling dew of May,
Stood a primrose tall and fair,
Cradled in the morning air;
Happy sunbeams came and shed
Radiant glow around her head.

In the peaceful, silent wood,
Like a fairy child she stood,
In her leafy arbour bright,
Draped and veiled with virgin light.

Scarcely had the zephyr brushed
Off her dew, when she was crushed
By some urchin, rude and wild,
Healthy vigour had beguiled
Early from his rustic home,
Over dewy fields to roam.

And the primrose now we pass,
Bruised and scattered on the grass;
But though dead and sere she lies,
From her fragments incense rise.

Pictured yonder is my doom;
Death will crush me in the tomb;
May I now such conduct live
As will then rich odours give,
And will fill the silent gloom
Of its portals with perfume.